f1.0

**Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg. / This document is available in English.**

# Polisi Derbyniadau Ysgolion 2025-2026

(1 Medi 2025 – 31 Awst 2026)

Tabl Cynnwys

1. **Yr awdurdod derbyn** ..... 4
1.1 Derbyn i ysgolion gwirfoddol a reolir ..... 4
1.2 Derbyn i ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ..... 4
1.3 Derbyniadau i'r chweched dosbarth ..... 5
1.4 Derbyniadau i ysgolion arbennig ..... 5
2. **Dewis rhieni** ..... 5
2.1 Y ddyletswydd i gydymffurfio â dewis rhieni ..... 5
3. **Dalgylchoedd ysgolion** ..... 7
4. **Capasiti ysgolion a'r nifer derbyn cyhoeddedig** ..... 7
5. **Terfyn maint dosbarthiadau babanod** ..... 8
6. **Addysg cyfrwng Cymraeg** ..... 9
7. **Trefniadau gydag awdurdodau lleol eraill** ..... 9
8. **Sicrhau mynediad teg** ..... 9
8.1 Plant o dramor neu blant o'r DU sy'n byw dramor ..... 10
8.2 Plant sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig (AAA) neu gynllun datblygu unigol (CDU) a gynhelir gan yr awdurdod lleol ..... 10
8.3 Plant sydd ag anghenion addysgol arbennig (ond heb ddatganiad o AAA neu CDU a gynhelir gan yr awdurdod lleol) ..... 10
8.4 Plant sydd ag anableddau ..... 10
8.5 Plant sydd ag ymddygiad heriol ..... 10
8.6 Plant sy'n derbyn gofal neu sydd wedi derbyn gofal ..... 11
8.7 Plant Sipsiwn, Roma a Theithwyr ..... 12
8.8 Plant personél lluoedd arfog y DU a Gweision eraill y Goron (gan gynnwys diplomyddion) ..... 12
8.9 Pob plentyn agored i niwed neu anodd ei leoli ..... 12
8.10 'Symudiadau wedi'u rheoli' ..... 13
9. **Ceisiadau derbyn y tu allan i'r grŵp oedran arferol** ..... 13
10. **Gwybodaeth neu amgylchiadau nad yw'r awdurdod lleol yn eu hystyried wrth wneud penderfyniadau derbyn** ..... 14
11. **Cydraddoldeb** ..... 14
12. **Diogelu data a rhannu gwybodaeth** ..... 15
13. **Cylchoedd derbyn** ..... 15
13.1 Cyflwyno ceisiadau ..... 15
13.2 Cylchoedd derbyn dosbarth meithrin ..... 18
13.3 Cylch derbyn i ysgol gynradd/fabanod (blwyddyn derbyn) ..... 26
13.4 Cylch derbyn i ysgol iau (Blwyddyn 3) ..... 29
13.5 Cylch derbyn i ysgol uwchradd (Blwyddyn 7) ..... 31
14. **Esboniadau o'r meini prawf gordanysgrifio** ..... 34
14.1 Plant sy'n derbyn gofal neu sydd wedi derbyn gofal ..... 34
14.2 Plant sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig (AAA) neu gynllun datblygu unigol (CDU) a gynhelir gan yr awdurdod lleol ..... 34
14.3 Plant y mae lleoliad yn hanfodol ar eu cyfer am resymau meddygol, seicolegol neu gymdeithasol anorchfygol ..... 34
14.4 Cyfeiriad / man preswylio arferol y plentyn ..... 35
14.5 Brodyr a Chwiorydd ..... 36
14.6 Plant aml-enedigaeth ..... 37
14.7 Pellter i'r ysgol ..... 38
15. **Y broses cynnig ar gyfer cylchoedd derbyn** ..... 38
15.1 Dyddiadau'r cynigion ..... 38
15.2 Cyfathrebu'r canlyniad ..... 38

15.3 Rhestrau aros....39
16. **Derbyniadau/trosglwyddiadau yn ystod y flwyddyn** ....39
16.1 Amgylchiadau pan fo'n ofynnol i wneud cais derbyn/trosglwyddo yn ystod y flwyddyn....39
16.2 Trosglwyddiadau ysgol....39
16.3 Ceisiadau ymlaen llaw ....40
16.4 Nifer y lleoedd sydd ar gael....40
16.5 Ystyried ceisiadau ....40
16.6 Cyfathrebu'r canlyniad ....40
16.7 Cynnig lle mewn ysgol arall....41
16.8 Rhestrau aros....41
17. **Apelau yn ymwneud â derbyniadau**....42
17.1 Cyffredinol ....42
17.2 Cofrestru apêl....42
17.3 Trefniadau ar gyfer gwrandawiad yr apêl ....43
17.4 Ail Apêl ....43
18. **Fforwm Derbyniadau Ysgol Pen-y-bont ar Ogwr** ....44
19. **Gwybodaeth ychwanegol** ....44
20. **Ymholiadau** ....44
**Atodiad A - Aiferoedd derbyn ....46**

# 1. Yr awdurdod derbyn

'Awdurdod Derbyn' sy'n rheoli ac yn gweinyddu mynediad plant i ysgolion. Yn achos ysgolion cymunedol ym Mhen-y-bont ar Ogwr, yr awdurdod derbyn yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (a elwir hefyd 'yr awdurdod lleol' yn y ddogfen hon).

Yn unol â Rheoliadau Addysg (Meysydd Perthnasol ar gyfer Ymgynghori ar Drefniadau Derbyn) 1999, yr ardal berthnasol ar gyfer yr awdurdod derbyn yw ardal ddaearyddol Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

Pan mai'r awdurdod lleol yw'r awdurdod derbyn, mae dyletswydd ar gorff llywodraethu'r ysgol i weithredu penderfyniad yr awdurdod lleol ar geisiadau, ac i weithredu yn unol â threfniadau derbyn yr awdurdod lleol.

**Mae'r awdurdod lleol yn adolygu ei drefniadau derbyn ar gyfer addysg statudol ac anstatudol yn barhaus ac yn cadw'r hawl i'w diwygio.**

Nid oes gan yr awdurdod lleol unrhyw drefniadau ar gyfer darparu addysg mewn ysgolion nas cynhelir gan awdurdod lleol.

## 1.1 Derbyn i ysgolion gwirfoddol a reolir

Un ysgol wirfoddol a reolir a geir ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, sef Ysgol Gynradd Yr Eglwys yng Nghymru Pen-y-fai, a ariennir gan yr awdurdod lleol. Mae'r meini prawf derbyn yn gyson â meini prawf derbyn yr awdurdod lleol, yn unol â'r manylion yn y polisi hwn, ac â Gweithred Ymddiriedolaeth yr ysgol. Rheolir trefniadau apelio gan yr awdurdod lleol ac maent yn gyson â darpariaeth y Weithred Ymddiriedolaeth.

## 1.2 Derbyn i ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir

Mae pum ysgol wirfoddol a gynorthwyir ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, a ariennir yn bennaf gan yr awdurdod lleol. Y pum ysgol yw:

1. Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair
2. Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair a Sant Padrig
3. Ysgol Gynradd Gatholig Rufeinig Sant Robert
4. Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru yr Archddiacon John Lewis
5. Ysgol Uwchradd Gatholig yr Archesgob McGrath

Corff llywodraethu pob ysgol wirfoddol a gynorthwyir yw'r awdurdod derbyn sy'n gyfrifol am yr holl drefniadau derbyn. Bydd angen i rieni/ofalwyr sy'n dymuno i'w plant gael eu derbyn i'r ysgolion hyn gysylltu â'r ysgol/ion am ragor o wybodaeth.

### 1.3 Derbyniadau i'r chweched dosbarth

Yr awdurdod lleol yw'r awdurdod derbyn ar gyfer derbyniadau Ôl-16 i'r chweched dosbarth yn ysgolion cymunedol Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Er hynny, yr ysgolion unigol sy'n gweinyddu'r trefniadau derbyn ar ran yr awdurdod lleol. Felly dylid anfon ceisiadau yn y categori hwn yn uniongyrchol i'r ysgol.

Er bod gan yr awdurdod lleol bolisi mynediad agored i chweched dosbarth ysgolion, yr ysgolion unigol sy'n gyfrifol am benderfynu a gosod meini prawf derbyn ar gyfer derbyniadau chweched dosbarth.

Mae trefniadau derbyn ar gyfer sefydliadau addysg bellach Ôl-16 eraill yn cael eu penderfynu gan y sefydliadau hynny a dylid gwneud ceisiadau yn uniongyrchol i'r sefydliad/au perthnasol.

### 1.4 Derbyniadau i ysgolion arbennig

Mae'r ddwy ysgol arbennig ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn Ysgol Heronsbridge ac Ysgol Bryn Castell. Nid yw derbyniadau i'r ysgolion hyn wedi eu cynnwys yn narpariaethau'r polisi hwn ac nid ydynt yn ddarostyngedig iddo.

## 2. Dewis rhieni

### 2.1 Y ddyletswydd i gydymffurfio â dewis rhieni

Mewn perthynas â derbyniadau i ysgolion cynradd (ac eithrio dosbarthiadau meithrin), ysgolion iau ac ysgolion uwchradd (gan gynnwys chweched dosbarth), mae gan yr awdurdod lleol ddyletswydd statudol i ystyried yr egwyddor gyffredinol y dylai disgyblion gael eu haddysgu'n unol â dymuniadau eu rhieni/gofalwyr, cyn belled â bod hynny'n gyson â darparu addysg effeithlon ac yn osgoi gwariant cyhoeddus afresymol (A.9 o Ddeddf Addysg 1996).

Mae'r awdurdod lleol yn defnyddio'r un egwyddor o ddewis rhieni ar gyfer ceisiadau am addysg feithrin anstatudol mewn ysgol a gynhelir gan awdurdod lleol.

Nid yw dyletswydd yr awdurdod lleol i gydymffurfio â dewis rhieni yn berthnasol pan fydd:

1. Derbyn yn anghydnaws â'r ddyletswydd statudol i gadw at reoliadau maint dosbarthiadau babanod.

2. Derbyn y plentyn yn niweidiol i ddarpariaeth addysg effeithlon neu ddefnydd effeithlon o adnoddau.

3. Trefniadau derbyn i chweched dosbarth ysgol wedi eu seilio'n llwyr ar allu neu ddawn a byddai cydymffurfio â'r dewis yn anghydnaws â'r trefniadau derbyn hynny.

4. Y plentyn wedi ei wahardd yn barhaol o ddwy ysgol neu fwy. O dan yr amgylchiadau hyn, nid yw’n ofynnol i’r awdurdod lleol gydymffurfio â dewis rhieni o le mewn ysgol am gyfnod o ddwy flynedd ar ôl diwrnod ysgol cyntaf yr ail waharddiad.

   Nid yw'r eithriad hwn i’r gofyniad i gydymffurfio â dewis rhieni yn berthnasol i:

   - ddisgyblion a oedd yn iau na’r oedran addysg orfodol pan gawsant eu gwahardd;
   - disgyblion a gafodd eu derbyn yn ôl yn dilyn gwaharddiad parhaol neu ddisgyblion a fyddai wedi eu derbyn yn ôl yn dilyn gwaharddiad parhaol os byddai wedi bod yn ymarferol i wneud hynny;
   - disgyblion sydd â datganiadau o anghenion addysgol arbennig;
   - disgyblion sy’n derbyn gofal (mae’n rhaid i’r cais ar gyfer derbyn gael ei wneud gan y rhiant corfforaethol), neu sydd wedi derbyn gofal (mae’n rhaid i’r cais ar gyfer derbyn gael ei gyflwyno gyda thystiolaeth o’r statws o dderbyn gofal yn y gorffennol).

## 2.2 Cydymffurfio â dewis rhieni

Ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, mae gan bob ysgol ardal y mae’n ei gwasanaethu (ei dalgylch), ond mae’n rhaid i’r awdurdod lleol roi’r cyfle i rieni/ofalwyr fynegi dewis cadarnhaol ar gyfer yr ysgol y maent yn dymuno i’w plentyn ei mynychu. Er bod y rhan fwyaf o rieni/ofalwyr yn hapus i ddewis eu hysgol ddalgylch, mae’n rhaid i rieni/ofalwyr ddewis yr ysgol honno drwy ffurflen gais derbyn i ysgol neu gais derbyn/trosglwyddo i ysgol yn ystod y flwyddyn. Mae’r ffurflen gais yn caniatáu i rieni/ofalwyr restru mwy nag un ysgol yn nhrefn blaenoriaeth. Bydd yr awdurdod lleol yn cynnig lle yn yr ysgol uchaf ar y rhestr sydd ar gael.

Mae’r awdurdod lleol wedi ymrwymo i’r egwyddor o ddarparu ysgolion lleol i blant lleol a bydd yn gwneud pob ymdrech i sicrhau y gall rhieni/gofalwyr sicrhau lle i’w plentyn/plant yn yr ysgol ddalgylch, pan fo rhieni/gofalwyr wedi mynegi dewis cadarnhaol i’r ysgol honno. Fodd bynnag, ni ddylai rhieni/gofalwyr dybio’n awtomatig y bydd lle ar gael ar gyfer eu plentyn yn eu hysgol ddalgylch, nac mewn unrhyw ysgol benodol.

Mae dyletswydd ar yr awdurdod lleol i fodloni dewisiadau derbyn a fynegwyd gan rieni/ofalwyr o flaen y rhai hynny nad ydynt wedi mynegi dewis. Felly ar gyfer y cylchoedd derbyn arferol, mae’n rhaid i rieni/ofalwyr sicrhau eu bod yn nodi eu dewis/iadau ar y ffurflen gais derbyn i ysgol a bod y cais yn cael ei gyflwyno i’r awdurdod lleol erbyn y terfyn amser a nodwyd.

### 2.3 Newidiadau i ddewis rhieni a fynegir

Mewn cylchoedd derbyn, os yw'r rhiant / gofalwr yn dymuno newid y dewis / dewisiadau ysgol ar ôl i'r cais gael ei gyflwyno i'r awdurdod lleol:

1. Mae'n rhaid rhoi gwybod i'r awdurdod lleol mewn ysgrifen (e-bost neu lythyr).
2. Os caiff yr awdurdod wybod am y newid cyn dyddiad cau y cylch derbyn, ystyrir y newid wrth ddefnyddio'r meini prawf gordanysgrifio a dyrannu lleoedd.
3. Os caiff yr awdurdod wybod am y newid ar ôl dyddiad cau'r cylch derbyn, defnyddir y dewis / dewisiadau ysgol a gofnodwyd ar y cais wrth ddefnyddio'r meini prawf gordanysgrifio a dyrannu lleoedd. Bydd yr ymgeisydd yn cael llenwi a chyflwyno cais hwyr os nad yw'n ffafrio'r ysgol y dyrennir lle ynddi mwyach, a byddai hyn yn amodol ar y darpariaethau sy'n berthnasol i geisiadau hwyr (adran 1.16). Fodd bynnag, o dan yr amgylchiadau hyn, bydd yr awdurdod lleol yn cynnig yr opsiwn i'r ymgeisydd gynnal y cais gwreiddiol a dewis / dewisiadau ysgol yn lle.

Bydd y ffurflen gais yn nodi uchafswm y dewisiadau y gall rhiant/gofalwr eu mynegi o ran eu dewis o ysgolion. Gall rhiant/gofalwr fynegi i ddewis nifer llai o ddewisiadau ysgol. Fodd bynnag, mewn sefyllfa o'r fath, os na all yr awdurdod lleol gynnig lle mewn unrhyw ysgol o'u dewis, ni fydd yr awdurdod lleol yn cymryd unrhyw gamau pellach mewn perthynas â'r cais.

Bydd yn ofynnol i'r rhiant / gofalwr gwblhau a chyflwyno cais newydd ar gyfer unrhyw ysgol amgen, a fydd yn cael ei brosesu fel cais hwyr yn unol â darpariaethau adran 13.1.

## 3. Dalgylchoedd ysgolion

### 3.1 Ysgolion Cymraeg

Nid oes ardaloedd dalgylch ar gyfer ysgolion Cymraeg ym Mhen-y-bont ar Ogwr.

### 3.2 Pob ysgol arall

Mae [mapiau dalgylchoedd ysgolion] wedi eu cyhoeddi ar wefan yr awdurdod lleol.

Mae'n bosibl y gall dalgylchoedd newid, a bydd unrhyw newidiadau yn destun ymgynghoriad cyn eu rhoi ar waith.

**Nid oes hawl awtomatig i gynnig lle yn ysgol ddalgylch plentyn, na sicrwydd o hynny.**

## 4. Capasiti ysgolion a'r nifer derbyn cyhoeddedig

Capasiti ysgol yw nifer y lleoedd i ddisgyblion sydd yn yr ysgol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi methodoleg cyfrifo capasiti ar gyfer pob ysgol. Nod y fethodoleg hon yw darparu dull cadarn a chyson o asesu capasiti disgyblion pob ysgol gymunedol, wirfoddol a gynorthwyir, wirfoddol a reolir a sefydledig yng Nghymru.

Mae capasiti cyfrifedig ysgol wedi ei seilio ar nifer y lleoedd mewn ysgol a'i ddefnydd. Ar gyfer grwpiau blwyddyn oedran statudol (dosbarth Derbyn i Flwyddyn 11) mae'r capasiti cyfrifedig yn llywio nifer derbyn cyhoeddedig ysgol.

Am flwyddyn arferol o fynediad (hynny yw, Derbynfa a Blwyddyn 7), mae'n rhaid i awdurdod lleol dderbyn disgyblion hyd at y nifer derbyn cyhoeddedig ym mhob grŵp blwyddyn oedran statudol mewn ysgol (ac eithrio disgyblion sydd wedi eu gwahardd ddwywaith – gweler adran 2).

Am yr holl flynyddoedd eraill, nid yw'n ofyniad statudol bod yr awdurdod lleol yn derbyn disgyblion hyd at y rhif derbyn cyhoeddedig, er y bydd yr awdurdod lleol fel arfer yn gwneud hynny. Fodd bynnag, ar gyfer dosbarthiadau babanod (Derbyniad, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2), deddfwriaeth ar gyfer maint dosbarthiadau babanod yn berthnasol (gweler adran 5). Mae gan yr awdurdod lleol hawl i wrthod mynediad am leoedd mewn unrhyw flwyddyn ac eithrio'r flwyddyn mynediad arferol (hynny yw,  derbynfa), os byddai yw'r cynnig o le yn golygu gan beryglu maint dosbarth babanod (er enghraifft, gwneud yn ofynnol bod yr ysgol yn cyflogi athro ychwanegol neu'n creu ystafell ddosbarth arall pan nad oes ganddi'r adnoddau i wneud hynny). Felly, gall yr awdurdod lleol wrthod mynediad i Flwyddyn 1 a Blwyddyn os byddai yw'r cynnig o le yn golygu gan beryglu maint dosbarth babanod, hyd yn oed os na chyrhaeddir y rhif mynediad ar gyfer y grwpiau blwyddyn hyn.

Gan fod y nifer derbyn cyhoeddedig yn adlewyrchu gallu'r ysgol i dderbyn disgyblion, dim ond o dan amgylchiadau eithriadol y dylid derbyn mwy na'r nifer hwn.

## 5. Terfyn maint dosbarthiadau babanod

Er mwyn gwella safonau addysg mewn ysgolion, mae Rheoliadau Derbyn i Ysgolion (Maint Dosbarthiadau Babanod) 2013 yn cyfyngu nifer y plant mewn dosbarthiadau Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 i 30 pan fo un athro cymwysedig yn bresennol.

Bydd yr awdurdod lleol yn gwrthod derbyn i ddosbarthiadau yn y grwpiau blwyddyn hyn os bydd derbyn yn arwain at dorri'r terfyn maint dosbarthiadau babanod achosi rhagfarn o ran maint dosbarthiadau babanod, oni bai fod y sefyllfa yn un y caniateir eithriad i'r terfyn maint dosbarthiadau babanod gan ddeddfwriaeth.

O ran y flwyddyn Derbyn, nid yw niweidio maint dosbarthiadau babanod yn broblem os nad yw nifer y disgyblion yn y flwyddyn Derbyn wedi cyrraedd nifer derbyn cyhoeddedig yr ysgol.

Y pennaeth sy'n gyfrifol am benderfyniadau ar strwythur dosbarthiadau mewn ysgol. Os bydd pennaeth yn penderfynu gweithredu dosbarth aml-oedran lle mae rhai o'r disgyblion yn y dosbarth yn y Derbyn, Blwyddyn 1 neu Flwyddyn 2, bydd y terfyn maint dosbarthiadau babanod yn berthnasol dim ond os bydd y mwyafrif o'r disgyblion yn y dosbarth yn y Derbyn, Blwyddyn 1 neu Flwyddyn 2.

## 6. Addysg cyfrwng Cymraeg

Mae pedair ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg ac un ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg sydd wedi'u lleoli ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

Rheolir trefniadau derbyn i ysgolion cyfrwng Cymraeg ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr trwy ddefnyddio'r darpariaethau a'r meini prawf a nodir yn y polisi hwn.

Nid oes ardaloedd dalgylch ar gyfer ysgolion Cymraeg ym Mhen-y-bont ar Ogwr.

Gall rhiant / gofalwr wneud cais am le i'w plentyn mewn unrhyw ysgol Gymraeg yn y sir. Fodd bynnag, os yw rhiant / gofalwr yn dewis gwneud cais am le mewn ysgol Gymraeg **nad** hi yw'r ysgol Gymraeg agosaf at le preswyl arferol y plentyn, a bod y cais hwnnw'n llwyddiannus, **nid** oes hawl i gartref am ddim- cludiant i'r ysgol, waeth beth yw'r pellter.

Dim ond pan fo man preswylio cyffredin y plentyn fwy na dwy filltir o'r ysgol gynradd Gymraeg agosaf neu dair milltir o'r ysgol uwchradd Gymraeg agosaf y mae cymhwysedd ar gyfer cludiant ysgol yn berthnasol.

## 7. Trefniadau gydag awdurdodau lleol eraill

Mae'r awdurdod lleol wedi gwneud y trefniadau canlynol gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf lle y ceir lleoedd dros ben:

1. Gall rhieni/gofalwyr disgyblion sy'n byw o fewn dalgylch Ysgol Gynradd Abercerdin wneud cais am le i'w plentyn yn Ysgol Gyfun Tonyrefail ac, os yw'n llwyddiannus,bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn gyfrifol am gludiant.
2. Gall rhieni/gofalwyr disgyblion sy/y byw yn Thondda Cynon Tafwneud cais am le i'w plentyn yn Ysgol Gyfun Pencoed ac,os yw/n llwyddiannus, bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn gyfrifol am gludiant.

## 8. Sicrhau mynediad teg

Mae ystyriaethau penodol yn berthnasol i grwpiau penodol o blant, fel y nodir isod.

Mae gan yr awdurdod lleol Banel Mynediad Teg Prif Ffrwd.  Gall y panel ystyried ceisiadau am leoedd ysgol prif ffrwd ar gyfer plant unigol o fewn y grwpiau penodol hyn a phenderfynu arnynt, yn unol â'r cylch gorchwyl diffiniedig.

### 8.1 Plant o dramor neu blant o'r DU sy'n byw dramor

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau ar gyfer awdurdodau derbyn wrth brosesu ceisiadau o wlad arall.  Bydd yr awdurdod lleol yn prosesu pob cais o'r fath yn unol â'r canllawiau cyhoeddedig.

### 8.2 Plant sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig (AAA) neu gynllun datblygu unigol (CDU) a gynhelir gan yr awdurdod lleol

Pan mai lle prif ffrwd mewn ysgol gymunedol yw'r lleoliad a enwir ar ddatganiad terfynol o AAA neu CDU a gynhelir gan yr awdurdod lleol, yn dilyn ymgynghoriad bydd yr awdurdod lleol yn derbyn y plentyn i'r ysgol hwnnw.

### 8.3 Plant sydd ag anghenion addysgol arbennig (ond heb ddatganiad o AAA neu CDU a gynhelir gan yr awdurdod lleol)

Bydd ceisiadau sy'n ymwneud â phlant o'r fath yn cael eu hystyried yn yr un modd â phob cais ar sail y gweithdrefnau a'r meini prawf derbyn a osodwyd yn y polisi hwn.

Os ydy plentyn yn cael ei asesu dan y system ADY ar hyn o bryd ac, yn ddiweddarach, bydd yr awdurdod lleol yn casglu y dylai'r plentyn fod â  CDU a gynhelir gan yr awdurdod lleol, bydd y lleoliad ysgol priodol yn cael ei drafod yn rhan o'r broses statudol honno.

### 8.4 Plant sydd ag anableddau

Bydd yr awdurdod lleol yn cydymffurfio â'r ddyletswydd addasiadau rhesymol sy'n ddyledus i ddisgyblion anabl, fel y diffiniwyd yn Neddf Cydraddoldeb 2010.

### 8.5 Plant sydd ag ymddygiad heriol

Ni fydd yr awdurdod lleol yn gwrthod derbyn plentyn ar sail ei ymddygiad. Bydd y plant hyn yn cynnwys y rhai hynny sydd â'r potensial i fod yn aflonyddgar, arddangos ymddygiad heriol neu'r rhai hynny y gellid ystyried y mae angen asesiad ar gyfer anghenion addysgol arbennig arnyn nhw.

Ar ôl derbyn, gall ysgol ystyried camau disgyblu fel y bo'n briodol, mewn ymateb i ymddygiad heriol. Fodd bynnag, gall plant sy'n arddangos ymddygiad heriol fod yn anabl yn unol â diffiniad Deddf Cydraddoldeb 2010 a bydd angen gwneud addasiadau rhesymol ar eu cyfer yn yr ysgol.

## 8.6 Plant sy’n derbyn gofal neu sydd wedi derbyn gofal

O ran plant sy’n derbyn gofal, mae’r darpariaethau canlynol yn berthnasol hyd yn oed pan mai Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yw’r rhiant corfforaethol.

### Cylchoedd derbyn

Caiff ceisiadau sy’n ymwneud â phlant sy’n derbyn gofal neu sydd wedi derbyn gofal eu blaenoriaethu o dan y meini prawf gordanysgrifio perthnasol, **yn amodol ar y canlynol:**

1. Bod y rhiant corfforaethol (hynny yw, yr awdurdod lleol sy’n gyfrifol am ofal y plentyn) yn cwblhau ac yn cyflwyno’r cais ar gyfer plentyn sy’n derbyn gofal, a bod tystiolaeth ategol yn cael ei chyflwyno hefyd (Gorchymyn Gofal neu Orchymyn Gofal Dros Dro).

2. Bod y cais ar gyfer plentyn sydd wedi derbyn gofal yn cael ei ddanfon gyda thystiolaeth ategol gan y rhiant corfforaethol gynt.

### Trosglwyddiadau/derbyniadau yn ystod y flwyddyn

Yn unol â’r cod statudol, Cod Derbyniadau Ysgol 2013, pan fo ymgais i wneud cais derbyn/trosglwyddo yn ystod y flwyddyn ar gyfer plentyn sy’n derbyn gofal, mae’n rhaid i’r rhiant corfforaethol ymgynghori â’r awdurdod lleol cyn cyflwyno’r cais. Mae hyn i sicrhau addasrwydd yr ysgol a ffefrir o ystyried cefndir ac amgylchiadau'r plentyn. Mae hefyd yn ofynnol cynnal yr ymgynghoriad hwn a chwblhau cais mewn cysylltiad â phlant sy’n derbyn gofal sydd wedi eu gwahardd yn barhaol o ddau neu fwy o ysgolion.

Hefyd, yn achos plentyn sy’n derbyn gofal sydd wedi ei wahardd o ddau neu fwy o ysgolion, mae’n rhaid i’r rhiant corfforaethol ymgynghori hefyd â chorff llywodraethu’r ysgol a nodwyd.

Yn y ddau achos, nid oes angen i’r ymgynghoriad fod yn feichus.

Ar gyfer ceisiadau trosglwyddo/derbyn yn ystod y flwyddyn mewn cysylltiad â phlant sy’n derbyn gofal, bydd lle yn cael ei gynnig yn yr ysgol y cytunwyd arni a bydd eithriad i’r terfyn maint dosbarthiadau babanod yn cael ei roi ar waith (os yw’n berthnasol), **ar yr amod** bod y cais yn cael ei gwblhau a’i ddanfon gan y rhiant corfforaethol (hynny yw, yr awdurdod lleol sydd yn gyfrifol am y plentyn) a bod tystiolaeth ategol yn cael ei darparu (Gorchymyn Gofal neu Orchymyn Gofal Dros Dro).

Ar gyfer ceisiadau trosglwyddo/derbyn yn ystod y flwyddyn mewn cysylltiad â phlant sydd wedi derbyn gofal yn flaenorol, bydd lle yn cael ei gynnig yn yr ysgol a ffefrir a bydd eithriad i’r terfyn maint dosbarthiadau babanod yn cael ei roi ar waith (os yw'n berthnasol), **ar yr amod** bod tystiolaeth ategol yn cael ei darparu gyda’r cais gan y rhiant corfforaethol gynt.

Mae'n rhaid cyflwyno'r dystiolaeth ategol a nodwyd uchod gyda'r cais.

### 8.7 Plant Sipsiwn, Roma a Theithwyr

Wrth ystyried ceisiadau derbyn sy'n ymwneud â phlant Sipsiwn, Roma a Theithwyr, bydd yr awdurdod lleol yn ystyried Cylchlythyr Llywodraeth Cymru Rhif: 003/2008 (Symud Ymlaen – Addysg i Deithwyr Sipsiwn) ac adrannau 3.25 a 3.26 o'r cod statudol, Cod Derbyniadau Ysgol 2013.

### 8.8 Plant personél lluoedd arfog y DU a Gweision eraill y Goron (gan gynnwys diplomyddion)

Mae 'personél lluoedd arfog y DU' yn cyfeirio at bobl sy'n gwasanaethu yn y lluoedd arfog. 'Gweision y Goron' yw swyddogion llywodraeth y DU, gan gynnwys diplomyddion.

Nid oes hawl awtomatig i le yn yr ysgol a ffefrir ar gyfer plant personél lluoedd arfog y DU a Gweision eraill y Goron.

Bydd yr awdurdod lleol yn derbyn cyfeiriad post 'uned' ar gyfer ceisiadau gan bersonél y lluoedd arfog sy'n gwasanaethu os nad oes cyfeiriad postio cartref newydd.

Ar gyfer cylchoedd derbyn arferol, bydd yr awdurdod lleol yn trin plant personél lluoedd arfog y DU a Gweision eraill y Goron fel pe byddant eisoes yn preswylio yn y cyfeiriad yn y dyfodol **ar yr amod** bod y cais yn cael ei gyflwyno gyda llythyr swyddogol gan y Weinyddiaeth Amddiffyn neu'r Swyddfa Dramor a Chymanwlad yn datgan dyddiad dychwelyd a chadarnhad o'r cyfeiriad newydd. Bydd yr awdurdod lleol yn dyrannu lle ysgol yn unol â'r meini prawf perthnasol ar gyfer y cylch derbyn.

Mewn cysylltiad â cheisiadau derbyn/trosglwyddo ar gyfer plant personél lluoedd arfog y DU a Gweision y Goron sy'n gwasanaethu:

- bydd y plant hynny yn derbyn 'statws eithrio' at ddibenion terfynau maint dosbarthiadau babanod (os yw'n berthnasol), os ydynt yn cael eu derbyn i'r ysgol a ffefrir;
- os bydd y cais yn aflwyddiannus a gwrthodir lle yn yr ysgol a ffefrir, gall y rhieni/gofalwyr apelio yn erbyn y penderfyniad a bydd unrhyw wrandawiad apêl yn cael ei glywed fel apêl niwed cyffredin.

Bydd ceisiadau ar gyfer plant pobl oedd gynt yn bersonél lluoedd arfog y DU neu Weision y Goron yn cael eu trin fel pob cais arall.

### 8.9 Pob plentyn agored i niwed neu anodd ei leoli

Bydd darpariaethau'r polisi hwn yn berthnasol. Hefyd, mae gan yr awdurdod lleol brotocol mynediad teg a phanel mynediad teg a all ystyried derbyniadau blant o'r fath.

### 8.10 ‘Symudiadau wedi’u rheoli’

Mae gan yr awdurdod lleol bolisi ar wahân ar gyfer symudiadau (trosglwyddiadau) disgyblion rhwng ysgolion wedi’u rheoli.

Mae symudiadau wedi’u rheoli yn cael eu trin yn wahanol i dderbyniadau arferol. Fodd bynnag, bydd yr awdurdod lleol yn cymhwyso darpariaethau'r polisi hwn wrth nodi ysgol neu ysgolion addas.

Bydd y disgybl yn aros ar gofrestr yr ysgol bresennol yn ystod y cyfnod symud wedi’i reoli. Ar ddiwedd y cyfnod symud wedi’i reoli, os bu’r symud wedi’i reoli yn llwyddiannus, bydd y disgybl yn cael ei roi ar gofrestr yr ysgol newydd, os yw’r rhiant/gofalwr yn llenwi cais derbyn i ysgol ac yn gofyn am yr ysgol. Os na fu’r symud wedi’i reoli yn llwyddiannus, bydd y disgybl yn dychwelyd i’r ysgol wreiddiol.

Nid yw’r Polisi Symud Wedi’i Reoli yn berthnasol mewn unrhyw achos pan fo’r rhiant/gofalwr yn cwblhau cais derbyn i ysgol cyn y symud wedi’i reolig ; y Polisi Derbyniadau Ysgolion sy’n berthnasol ymhob achos o’r fath.

## 9. Ceisiadau derbyn y tu allan i’r grŵp oedran arferol

O bryd i’w gilydd, bydd rhieni/gofalwyr yn ceisio lle ysgol i’w plentyn y tu allan i’r grŵp oedran cronolegol ar gyfer plentyn dawnus neu dalentog, neu sy’n dioddef problemau, neu sydd wedi colli rhan o flwyddyn ysgol oherwydd salwch, er enghraifft.

Bydd Panel Mynediad Teg Prif Ffrwd yr awdurdod lleol yn ystyried pob cais yn ofalus ac yn gwneud penderfyniadau ar sail amgylchiadau pob achos. Bydd yr panel yn ystyried yr hyn sydd fwyaf o fudd i’r plentyn ac, ym mhob achos, yn ystyried gwybodaeth gan bobl berthnasol i lywio ei benderfyniad.

Os yw’r panel yn penderfynu bod cais am le mewn grŵp y tu allan i’r grŵp blwyddyn yn briodol, ond bod y gwrthodir y cais hwnnw gan nad oes lleoedd ar gael yn yr ysgol, bydd y rhiant/gofalwr yn cael cynnig yr hawl i apelio. Fodd bynnag, nid oes hawl i apelio os oes lle wedi’i gynnig, ond nid yn y grŵp blwyddyn y gwnaed y cais amdano (hynny yw, pan gynigir lle yn y grŵp blwyddyn sy’n gronolegol gywir ar gyfer oedran y plentyn).

Os yw’r panel yn penderfynu bod cais am le mewn y tu allan i’r grŵp blwyddyn yn briodol ac mae'r cais am le Meithrin Rhan-amser yn y mis Ionawr neu'r Ebrill canlynol, neu Feithrin Amser Llawn, Derbynfa, ysgol iau Blwyddyn 3 neu ysgol uwchradd Blwyddyn 7 o'r mis Medi canlynol, bydd y cais yn ddarostyngedig i'r amodau a'r meini prawf sy'n berthnasol i'r rowndiau derbyn hynny, ac yn cael eu hystyried yn unol â hynny.

## 10. Gwybodaeth neu amgylchiadau nad yw'r awdurdod lleol yn eu hystyried wrth wneud penderfyniadau derbyn

Nid yw'r canlynol yn rhestr drwyadl, ond mae'n rhoi'r brif wybodaeth ac amgylchiadau nad ydynt yn cael effaith ar benderfyniadau derbyn;

- Unrhyw ysgol y mae'r plentyn wedi ei mynychu yn flaenorol.
- Unrhyw ysgol y gallai plentyn ei mynychu yn y dyfodol.
- Rhiant/gofalwr yn dweud wrth unrhyw ysgol bod bwriad i wneud cais am le yn yr ysgol. Mae hyn yn cynnwys unrhyw achos lle mae rhiant / gofalwr o'r farn eu bod wedi 'cofrestru' eu plentyn am le yn yr ysgol.
- Gwahoddiad i, neu bresenoldeb plentyn, mewn diwrnod 'blasu'/pontio mewn unrhyw ysgol.
- Caniatâd gan unrhyw ysgol i rieni/ofalwyr a/neu'r plentyn ymweld â'r ysgol.
- Unrhyw arwydd a roddir yn glir, neu a dybir gan riant/ofalwr y'i rhoddwyd, gan ysgol bod lleoedd ar gael yn yr ysgol mewn unrhyw grŵp blwyddyn, ac eithrio'r chweched dosbarth.

## 11. Cydraddoldeb

Mae polisi a threfniadau derbyn yr awdurdod lleol yn ceisio cydymffurfio'n llawn â'r holl ddeddfwriaeth a chanllawiau perthnasol o ran cyfle cyfartal a hawliau dynol (Deddf Cydraddoldeb 2010, Deddf Hawliau Dynol 1998 a Deddf yr Iaith Gymraeg 1993).

Hoffai'r awdurdod lleol i'w wasanaethau fod ar gael i'r gymuned gyfan a bydd yn herio gwahaniaethu yn ein cymunedau, boed ar sail statws trawsryweddol, hil, rhywedd, anabledd, oedran, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd neu gred, beichiogrwydd a mamolaeth, priodas neu bartneriaeth sifil.

Mae Cynllun Cydraddoldeb Corfforaethol yr awdurdod lleol yn nodi sut y bydd yn cydymffurfio â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus wrth gyflawni ei swyddogaethau, gan roi sylw dyledus i'r angen i:

- ddileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall a waherddir o dan y ddeddfwriaeth;
- datblygu cyfle cyfartal rhwng unigolion sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol ac unigolion nad ydynt yn rhannu'r nodwedd; a
- meithrin cysylltiadau da rhwng unigolion sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol ac unigolion nad ydynt yn rhannu'r nodwedd.

## 12. Diogelu data a rhannu gwybodaeth

Mae'r awdurdod lleol yn cydymffurfio â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) a Deddf Diogelu Data 2018. Mae canllawiau ac egwyddorion Diogelu Data llawn yr awdurdod lleol ar gael i'w darllen ar y wefan.

Cedwir unrhyw wybodaeth a gofnodir gan ymgeisydd mewn ffurflen gais derbyn i ysgol yn electronig a bydd yn cael ei defnyddio gan yr awdurdod lleol at ddiben prosesu'r cais.

Bydd yr awdurdod lleol yn rhannu'r wybodaeth a ddarperir ar ffurflen gais derbyn i ysgol neu gais derbyn/trosglwyddo i ysgol yn ystod y flwyddyn â'r ysgolion perthnasol yn unol â'r Datganiad Prosesu Teg – Addysg a Chymorth i Deuluoedd.

Bydd yr awdurdod lleol yn ymchwilio i unrhyw geisiadau derbyn i ysgolion lle mae amheuaeth ynghylch y wybodaeth a ddarparwyd.  Bydd hyn er mwyn cynorthwyo i atal a chanfod twyll er mwyn cael mantais annheg yn y system ceisiadau ysgol ac o dan Atodlen 2, rhan 1, 2(1) o Ddeddf Diogelu Data 2018.

## 13. Cylchoedd derbyn

### 13.1 Cyflwyno ceisiadau

#### Y gofyniad i wneud cais am le ysgol

Mae'n **rhaid** i riant/ofalwr lenwi ffurflen gais derbyn i ysgol.

Mae angen cais ar wahân i bob plentyn.

Ni fydd y plentyn yn cael dechrau mewn ysgol tan fod cais wedi ei dderbyn a'i brosesu gan yr awdurdod lleol, a bod lle yn yr ysgol wedi ei gynnig gan yr awdurdod lleol.

#### Yr ymgeisydd

Mewn cysylltiad â cheisiadau ar gyfer plant meithrin a phlant o oedran ysgol statudol, mae'n rhaid i'r cais gael ei wneud gan 'riant' y plentyn, yn unol â'r diffiniad yn Adran 576 o Ddeddf Addysg 1996. Mae hyn yn nodi bod 'rhiant', mewn cysylltiad â phlentyn neu berson ifanc, yn cynnwys unrhyw berson nad yw'n rhiant biolegol ond sydd â chyfrifoldeb rhiant, neu sy'n gofalu am y plentyn.

Felly, at ddibenion cyfraith addysg, mae 'rhiant' yn cynnwys;

- pob rhiant biolegol, p'un a ydynt wedi priodi ai peidio;
- unrhyw berson sydd, er nad yw'n rhiant biolegol, â chyfrifoldeb rhiant dros blentyn neu berson ifanc – gall hwn fod yn rhiant mabwysiadol, llys-riant, gwarcheidwad neu berthynas arall;

- unrhyw berson sydd â gofal dros blentyn neu berson ifanc ond nad yw'n rhiant biolegol nac â chyfrifoldeb rhiant.

Mae person fel arfer â gofal dros blentyn neu berson ifanc os yw'r plentyn yn byw gyda'r person, naill ai'n amser llawn neu'n rhan-amser ac sy'n gofalu am y plentyn, ni waeth beth yw'r berthynas fiolegol a chyfreithiol â'r plentyn.

Mae'r awdurdod lleol yn defnyddio'r term 'rhiant/gofalwr' drwy'r polisi hwn i adlewyrchu diffiniad cyfreithiol 'rhiant', fel y nodwyd uchod.

Bydd yr awdurdod lleol dim ond yn derbyn apêl sydd wedi'i chofrestru gan unigolyn nad yw'n rhiant/gofalwr os oes caniatâd ysgrifenedig priodol gan y rhiant/gofalwr wedi'i atodi.

Bydd angen i ymgeisydd ddatgan ei berthynas â'r plentyn a darparu'r wybodaeth y mae'r awdurdod lleol yn gofyn amdani, gan gynnwys dogfennau, sy'n profi'r berthynas ar yr adeg pan gyflwynir y cais.

Mae'r awdurdod lleol yn disgwyl y bydd rhieni/gofalwyr plentyn yn cytuno ar yr ysgol/ion a ffefrir a phwy fydd yn cyflwyno'r cais, cyn i gais derbyn i ysgol gael ei gyflwyno. Ni fydd yr awdurdod lleol yn ymyrryd mewn anghydfod rhwng rhieni/gofalwyr dros geisiadau ysgol a bydd yn disgwyl i'r rhain gael eu datrys yn breifat. Os na all rhieni/gofalwyr gytuno ac nad oes dim gorchymyn Llys yn nodi pwy ddylai wneud y cais a pha ysgolion a ffefrir, bydd yr awdurdod lleol yn derbyn y cais gan y rhiant/gofalwr sy'n derbyn Budd-dal Plant dros y plentyn.

Gellir cyflwyno ceisiadau sy'n ymwneud â throsglwyddiadau/derbyniadau Ôl-16 gan riant/ofalwr neu'r dysgwr.

## Sut i wneud cais

Gellir cyflwyno ceisiadau ar-lein drwy gofrestru i 'Fy Nghyfrif' ar wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

Gall unrhyw rieni/ofalwyr nad oes ganddynt ddefnydd o'i gyfrifiadur/liniadur neu ffôn clyfar ei hun, ddefnyddio'r cyfrifiaduron sydd ar gael yn y llyfrgelloedd yn y fwrdeistref sirol i gofrestru i Fy Nghyfrif a chwblhau cais derbyn i ysgol. Gall unrhyw riant/ofalwr sy'n methu o hyd â chreu Fy Nghyfrif a chyrchu'r cais derbyn i ysgol perthnasol ar-lein, gysylltu â'r awdurdod lleol a gofyn am gopi caled o'r ffurflen gais.

Os bydd rhieni/gofalwyr yn caniatáu llenwi'r ffurflen gais derbyn i ysgol drwy Fy Nghyfrif trydydd parti, ystyrir y bydd daliwr Fy Nghyfrif yn cyflwyno'r cais ar ran, a gyda chaniatâd llawn, rhieni/gofalwyr y plentyn. O dan yr amgylchiadau hyn, ystyrir y bydd y rhieni/gofalwyr yn derbyn cyfrifoldeb llawn dros ganlyniadau unrhyw gamgymeriadau neu wallau wrth lenwi a/neu gyflwyno'r cais.

**Nid yw'r awdurdod lleol yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am beidio â derbyn cais na chafodd ei gyflwyno drwy'r cyfleuster ar-lein.**

Os dylai trefniadau'r awdurdod lleol ar gyfer cyflwyno ceisiadau derbyn newid cyn neu yn ystod dyddiadau effeithiol y polisi hwn, cyhoeddir manylion ym Mhrosbectws Dechrau yn yr Ysgol 2025-2026 ac ar wefan yr awdurdod lleol.

## Ceisiadau hwyr

Dylid cyflwyno cais mewn pryd i'r awdurdod lleol ei dderbyn erbyn y terfyn amser cyhoeddedig perthnasol.

Bydd yr awdurdod lleol yn derbyn ceisiadau hwyr a ddaw i law ar ôl y dyddiad cau cyhoeddedig perthnasol **ar yr amod** bod y cais yn dod i law **cyn** i'r awdurdod lleol ddechrau ddyrannu lleoedd i baratoi ar gyfer y cynnig derbyn (yr awdurdod lleol fydd yn penderfynu ar y dyddiad hwn ar y pryd ond bydd o leiaf fis cyn dyddiad y cynnig cyhoeddedig ar gyfer lleoedd) **a** bod yr awdurdod lleol yn fodlon â rhesymau'r rhieni/gofalwyr am fethu'r dyddiad cau.

Ni fydd ceisiadau sy'n ymwneud â phlant sy'n derbyn gofal neu sydd wedi derbyn gofal neu blant sydd â datganiad AAA neu CDU sy'n enwi ysgol benodol yn cael eu trin fel ceisiadau hwyr pryd bynnag y daw'r cais i law.

Ni fyddr unrhyw geisiadau hwyr eraill yn cael eu cynnwys wrth dyraniad o leoedd a gaiff eu hysbysu i ymgeiswyr ar y dyddiad cynnig cyhoeddedig perthnasol.

Bydd ceisiadau hwyr nad ydynt wedi'u cynnwys yn y dyraniad lleoedd ar gyfer y diwrnod cynnig yn cael eu prosesu gan yr awdurdod lleol ôl y dyddiad cynnig cyhoeddedig perthnasol ac yn nhrefn y dyddiad ac amser y derbyniwyd y ceisiadau. Ni fydd y meini prawf gordanysgrifio yn berthnasol; os oes lle ar gael yn yr ysgol a ffefrir ar yr adeg y mae'r cais yn cael ei brosesu, bydd lle yn cael ei gynnig. Felly, gall ymgeiswyr hwyr weld bod eu dewis o ysgol yn llawn eisoes, hyd yn oed os honno yw eu hysgol ddalgylch.

Ni fydd unrhyw geisiadau ar gyfer cylchoedd derbyn 2025-2026 a ddaw i law yr awdurdod lleol ar ôl 31 Awst 2025 yn cael eu prosesu. Ar ôl y dyddiad hwn, bydd angen cwblhau cais trosglwyddo/derbyn yn ystod y flwyddyn a bydd pob ystyriaeth ynglŷn â cheisiadau trosglwyddo/derbyn yn ystod y flwyddyn yn berthnasol. Nid yw'r awdurdod lleol yn derbyn ceisiadau trosglwyddo/derbyn yn ystod y flwyddyn a dderbynnir fwy na dau fis calendr cyn y dyddiad dechrau. Felly ni fydd ceisiadau am le rhan-amser mewn dosbarth meithrin ym mis Ebrill 2026 a ddaw i law ar ôl 31 Awst 2025 yn cael eu prosesu tan dymor y gwanwyn 2026.

## 13.2 Cylchoedd derbyn dosbarth meithrin

Nid yw addysg feithrin yn statudol, ond, yng Nghymru, mae hawl gan blant i le addysg blynyddoedd cynnar, rhan-amser, am ddim o ddechrau'r tymor yn dilyn eu trydydd pen-blwydd. Gall y lle fod mewn ysgol a gynhelir gan yr awdurdod lleol, neu yn y sector nas cynhelir, gyda darparwr blynyddoedd cynnar cofrestredig.

**Nid yw'r polisi hwn yn berthnasol ac eithrio i dderbyniadau i ddosbarthiadau meithrin mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol y mae'r awdurdod lleol yn awdurdod derbyn ar ei gyfer.** Mae'n rhaid i rieni/ofalwyr sy'n dymuno gwneud cais am le meithrin mewn ysgol wirfoddol a gynorthwyir gysylltu'n uniongyrchol â'r ysgol honno.

Mae lleoedd rhan-amser ar gyfer plant tair blwydd oed (Meithrin Blwyddyn 1) ac amser llawn ar gyfer plant pedair oed (Meithrin Blwyddyn 2). Er bod addysg feithrin yn anstatudol, mae'r awdurdod lleol yn disgwyl i bob plentyn sy'n cael cynnig lle Meithrin Rhan-amser i fynychu am bum hanner diwrnod yr wythnos ysgol a phob plentyn sy'n derbyn lle Methrin Amser Llawn i fynychu am bum diwrnod llawn yr wythnos ysgol.

Mae'n **rhaid** i gais derbyn i ysgol (meithrin) gael ei gwblhau gan rieni/ofalwyr plant cymwys i fynychu dosbarthiadau meithrin mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol.

Ni fydd plentyn yn cael caniatâd i fynychu dosbarth meithrin oni bai fod cais perthnasol wedi ei gyflwyno **a** bod yr awdurdod lleol wedi cynnig lle yn yr ysgol honno yn swyddogol.

**Ni fydd gan ddisgyblion a dderbynnir i ddosbarth Meithrin Rhan-amser hawl awtomatig i le Methrin Amser Llawn yn yr un ysgol.** Bydd yn ofynnol i holl rieni/ofalwyr plant sy'n mynychu dosbarth Meithrin Rhan-amser, pa un a yw'n byw yn y dalgylch sydd wedi'i ddiffinio neu'r tu allan iddo, lenwi ffurflen gais derbyn i ysgol am le Feithrin Amser Llawn, ar yr adeg briodol, gan nodi eu dewis o ysgol.

**Ni fydd gan ddisgyblion a dderbynnir i ddosbarth Meithrin Amser Llawn hawl awtomatig i le Derbyn yn yr un ysgol**. Bydd yn ofynnol i holl rieni/ofalwyr plant sy'n mynychu dosbarth Meithrin Amser Llawn, pa un a yw'n byw yn y dalgylch sydd wedi'i ddiffinio neu'r tu allan iddo, lenwi ffurflen gais derbyn i ysgol am le mewn dosbarth Derbyn, ar yr adeg briodol, gan nodi eu dewis o ysgol.

Gan fod addysg feithrin yn anstatudol, **nid oes gan rieni/ofalwyr hawl i apelio** yn erbyn penderfyniadau ar dderbyniadau meithrin.

## Amserlen derbyniadau meithrin 2025-2026

Ni chaiff yr amserlen ar gyfer derbyniadau meithrin ei llywodraethu gan God Derbyniadau Ysgol 2013. Mae amserlen ddisgwyliedig yr awdurdod lleol ar gyfer prosesu ceisiadau ar gyfer derbyniadau meithrin 2025-2026 fel a ganlyn:

**Derbyniadau dosbarth Meithrin Amser Llawn – disgyblion a anwyd rhwng 1 Medi 2021 a 31 Awst 2022, sy'n dechrau mewn dosbarth Meithrin Amser Llawn ym mis Medi 2025:**

| Cam gweithredu | Dyddiad |
|---|---|
| Y dyddiad agor ar gyfer cyflwyno ceisiadau | 10am<br>Dydd Llun, 6 Ionawr 2025 |
| Dyddiad cau yr awdurdod lleol ar gyfer derbyn ceisiadau | 4pm<br>Dydd Gwener, 4 Ebrill 20245 |
| Rhoi gwybod i'r ymgeiswyr am leoedd a gynigir neu a wrthodir (y 'dyddiad cynnig') | Dydd Gwener, 30 Mai 2025 |

**Derbyniadau dosbarth Meithrin Rhan-amser – disgyblion a anwyd rhwng 1 Medi 2022 a 31 Rhagfyr 2022 sy'n dechrau mewn dosbarth Meithrin Rhan-amser ym mis Ionawr 2026:**

| Cam gweithredu | Dyddiad |
|---|---|
| Y dyddiad agor ar gyfer cyflwyno ceisiadau | 10am<br>Dydd Llun, 6 Ionawr 2025 |
| Dyddiad cau yr awdurdod lleol ar gyfer derbyn ceisiadau | 4pm<br>Dydd Gwener, 29 Awst 2025 |
| Rhoi gwybod i'r ymgeiswyr am leoedd a gynigir neu a wrthodir | Erbyn 31 Hydref 2025 |

**Derbyniadau dosbarth Meithrin Rhan-amser – disgyblion a anwyd rhwng 1 Ionawr 2023 a 31 Mawrth 2023, sy'n dechrau mewn dosbarth Meithrin Rhan-amser ym mis Ebrill 2026:**

| Cam gweithredu | Dyddiad |
|---|---|
| Y dyddiad agor ar gyfer cyflwyno ceisiadau | 10am<br>Dydd Llun, 6 Ionawr 2025 |
| Dyddiad cau yr awdurdod lleol ar gyfer derbyn ceisiadau | 4pm<br>Dydd Gwener, 29 Awst 2025 |
| Rhoi gwybod i'r ymgeiswyr am leoedd a gynigir neu a wrthodir | Erbyn 31 Hydref 2025 |

## Dyrannu lleoedd dosbarth Meithrin Amser Llawn mewn ysgolion cyfrwng Saesneg

Bydd yr awdurdod lleol yn derbyn hyd at nifer sy'n cyfateb i rif derbyn cyhoeddedig yr ysgol yn unig fel arfer wrth ddyrannu lleoedd Meithrin Amser Llawn.

Pan fo nifer y ceisiadau yn fwy na nifer y lleoedd sydd ar gael, bydd yr awdurdod lleol yn defnyddio’r **meini prawf gordanysgrifio** canlynol yn nhrefn flaenoriaeth, i ddyrannu’r lleoedd sydd ar gael:

1. Plant sy’n derbyn gofal neu sydd wedi derbyn gofal a phlant gyda’r ysgol fel y lleoliad a enwir ar ddatganiad o AAA neu CDU a gynhelir gan yr awdurdod lleol.

2. Plant yr mae'r awdurdod lleol wedi derbyn a derbyn tystiolaeth ysgrifenedig gan weithiwr proffesiynol perthnasol bod y lleoliad yn hanfodol am resymau meddygol, seicolegol neu gymdeithasol anorchfygol.

3. Plant y mae eu man preswylio arferol o fewn dalgylch diffiniedig yr ysgol.

   Pan fydd ysgol wedi derbyn gormod o geisiadau o dan y maen prawf hwn, bydd yr awdurdod lleol yn dyrannu’r lleoedd yn y drefn flaenoriaeth ganlynol:

   a) Plant a fydd â brawd neu chwaer yn yr ysgol mewn unrhyw grŵp oedran o’r dosbarth Derbyn i Flwyddyn 6 yn y flwyddyn ysgol 2025-2026.

      Wrth ddyrannu lleoedd, os bydd y lle olaf yn cael ei gynnig i blentyn â brawd neu chwaer yr un oedran, bydd yr awdurdod lleol yn derbyn y brodyr/chwiorydd eraill hefyd.

   b) Pellter i’r ysgol, a fesurir yn ôl y llwybr cerdded diogel byrraf sydd ar gael o’r man preswylio arferol i glwyd agored agosaf yr ysgol.

4. Plant nad ydynt yn byw yn nalgylch diffiniedig yr ysgol fel arfer ar hyn o bryd, ond y mae eu rhieni/gofalwyr wedi bodloni’r awdurdod lleol, erbyn y dyddiad cau cyhoeddedig ar gyfer cyflwyno’r ceisiadau derbyn i ysgol perthnasol, y bydd y plentyn yn byw yn y dalgylch diffiniedig fel arfer erbyn dechrau’r tymor ysgol y mae’r cais yn berthnasol iddo.

   Pan fydd ysgol wedi derbyn gormod o geisiadau o dan y maen prawf hwn, bydd yr awdurdod lleol yn dyrannu’r lleoedd yn y drefn flaenoriaeth ganlynol:

   a) Plant a fydd â brawd neu chwaer yn yr ysgol mewn unrhyw grŵp oedran o’r dosbarth Derbyn i Flwyddyn 6 yn y flwyddyn ysgol 2025-2026.

Wrth ddyrannu lleoedd, os bydd y lle olaf yn cael ei gynnig i blentyn â brawd neu chwaer yr un oedran, bydd yr awdurdod lleol yn derbyn y brodyr/chwiorydd eraill hefyd.

b) Pellter i'r ysgol, a fesurir yn ôl y llwybr cerdded diogel byrraf sydd ar gael o'r man preswylio arferol i glwyd agored agosaf yr ysgol.

5. Bydd plant sy'n byw y tu allan i ddalgylch diffiniedig yr ysgol yn cael eu hystyried ar gyfer unrhyw leoedd sydd ar ôl yn ôl y drefn flaenoriaeth a nodir isod:

   a) Plant a fydd â brawd neu chwaer yn yr ysgol mewn unrhyw grŵp oedran o'r dosbarth Derbyn i Flwyddyn 6 yn y flwyddyn ysgol 2025-2026.

      Wrth ddyrannu lleoedd, os bydd y lle olaf yn cael ei gynnig i blentyn â brawd neu chwaer yr un oedran, bydd yr awdurdod lleol yn derbyn y brodyr/chwiorydd eraill hefyd.

   b) Pellter i'r ysgol, a fesurir yn ôl y llwybr cerdded diogel byrraf sydd ar gael o'r man preswylio arferol i glwyd agored agosaf yr ysgol.

## Dyrannu lleoedd dosbarth Meithrin Amser Llawn mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg

Bydd yr awdurdod lleol yn derbyn hyd at nifer sy'n cyfateb i rif derbyn cyhoeddedig yr ysgol yn unig fel arfer wrth ddyrannu lleoedd Meithrin Amser Llawn.

Pan fo nifer y ceisiadau yn fwy na nifer y lleoedd sydd ar gael, bydd yr awdurdod lleol yn defnyddio'r **meini prawf gordanysgrifio** canlynol yn nhrefn flaenoriaeth, i ddyrannu'r lleoedd sydd ar gael:

1. Plant sy'n derbyn gofal neu sydd wedi derbyn gofal a phlant gyda'r ysgol fel y lleoliad a enwir ar ddatganiad o AAA neu CDU a gynhelir gan yr awdurdod lleol.

2. Plant yr mae'r awdurdod lleol wedi derbyn a derbyn tystiolaeth ysgrifenedig gan weithiwr proffesiynol perthnasol bod y lleoliad yn hanfodol am resymau meddygol, seicolegol neu gymdeithasol anorchfygol.

3. Plant a fydd â brawd neu chwaer yn yr ysgol mewn unrhyw grŵp oedran o'r dosbarth Derbyn i Flwyddyn 6 yn y flwyddyn ysgol 2025-2026.

4. Pellter i'r ysgol, a fesurir yn ôl y llwybr cerdded diogel byrraf sydd ar gael o'r man preswylio arferol i glwyd agored agosaf yr ysgol.

Wrth ddyrannu lleoedd, os bydd y lle olaf yn cael ei gynnig i blentyn â brawd neu chwaer yr un oedran, bydd yr awdurdod lleol yn derbyn y brodyr/chwiorydd eraill hefyd.

## Dyrannu lleoedd Meithrin Rhan-amser mewn ysgolioncyfrwng Saesneg

Wrth benderfynu ar nifer y lleoedd Meithrin Rhan-amser sydd ar gael i'w dyrannu mewn unrhyw ysgol, bydd yr awdurdod lleol yn ystyried capasiti y lle a ddefnyddir ar gyfer disgyblion meithrin, y nifer derbyn cyhoeddedig a nifer y disgyblion Meithrin Amser Llawn sydd eisoes ar gofrestr yr ysgol.

Pan fo nifer y ceisiadau yn fwy na nifer y lleoedd sydd ar gael, bydd yr awdurdod lleol yn defnyddio'r **meini prawf gordanysgrifio** canlynol yn nhrefn flaenoriaeth, i ddyrannu'r lleoedd sydd ar gael:

1. Plant a anwyd rhwng 1 Medi 2022 a 31 Mawrth 2023 a fydd yn dair oed yn ystod blwyddyn ysgol 2025-2026 (bydd y plant hyn yn gymwys am le Meithrin Rhan-amser o fis Ionawr 2026 neu Ebrill 2026) sy'n derbyn gofal neu sydd wedi derbyn gofal a phlant gyda'r ysgol fel y lleoliad a enwir ar ddatganiad o AAA neu CDU a gynhelir gan yr awdurdod lleol.

2. Plant a anwyd rhwng 1 Medi 2022 a 31 Mawrth 2023 a fydd yn dair oed yn ystod blwyddyn ysgol 2025-2026 (bydd y plant hyn yn gymwys am le Meithrin Rhan-amser o fis Ionawr 2026 neu Ebrill 2026) yr mae'r awdurdod lleol wedi derbyn a derbyn tystiolaeth ysgrifenedig gan weithiwr proffesiynol perthnasol bod y lleoliad yn hanfodol am resymau meddygol, seicolegol neu gymdeithasol anorchfygol.

3. Plant a anwyd rhwng 1 Medi 2022 a 31 Rhagfyr 2022 a fydd yn dair oed yn ystod blwyddyn ysgol 2025-2026 (bydd y plant hyn yn gymwys am le Meithrin Rhan-amser o fis Ionawr 2026) ac y mae eu man preswylio arferol yn nalgylch diffiniedig yr ysgol.

   Pan fydd ysgol wedi derbyn gormod o geisiadau o dan y maen prawf hwn, bydd yr awdurdod lleol yn dyrannu'r lleoedd yn y drefn flaenoriaeth ganlynol:

   a) Plant a fydd â brawd neu chwaer yn yr ysgol mewn unrhyw grŵp oedran o'r dosbarth Derbyn i Flwyddyn 6 yn y flwyddyn ysgol 2025-2026.

      Wrth ddyrannu lleoedd, os bydd y lle olaf yn cael ei gynnig i blentyn â brawd neu chwaer yr un oedran, bydd yr awdurdod lleol yn derbyn y brodyr/chwiorydd eraill hefyd.

   b) Pellter i'r ysgol, a fesurir yn ôl y llwybr cerdded diogel byrraf sydd ar gael o'r man preswylio arferol i glwyd agored agosaf yr ysgol.

4. Plant a anwyd rhwng 1 Medi 2022 a 31 Rhagfyr 2022 a fydd yn dair oed yn ystod blwyddyn ysgol 2025-2026 (bydd y plant hyn yn gymwys am le Meithrin Rhan-amser o fis Ionawr 2026) nad ydynt yn byw yn nalgylch diffiniedig yr ysgol fel arfer ar hyn o bryd, ond y mae eu rhieni/gofalwyr wedi bodloni'r awdurdod lleol, erbyn y

dyddiad cau cyhoeddedig ar gyfer cyflwyno'r ceisiadau derbyn i ysgol perthnasol, y bydd y plentyn yn byw yn y dalgylch diffiniedig fel arfer erbyn dechrau'r tymor ysgol y mae'r cais yn berthnasol iddo.

Pan fydd ysgol wedi derbyn gormod o geisiadau o dan y maen prawf hwn, bydd yr awdurdod lleol yn dyrannu'r lleoedd yn y drefn flaenoriaeth ganlynol:

a) Plant a fydd â brawd neu chwaer yn yr ysgol mewn unrhyw grŵp oedran o'r dosbarth Derbyn i Flwyddyn 6 yn y flwyddyn ysgol 2025-2026.

   Wrth ddyrannu lleoedd, os bydd y lle olaf yn cael ei gynnig i blentyn â brawd neu chwaer yr un oedran, bydd yr awdurdod lleol yn derbyn y brodyr/chwiorydd eraill hefyd.

b) Pellter i'r ysgol, a fesurir yn ôl y llwybr cerdded diogel byrraf sydd ar gael o'r man preswylio arferol i glwyd agored agosaf yr ysgol.

5. Plant a anwyd rhwng 1 Medi 2022 a 31 Rhagfyr 2022 a fydd yn dair oed yn ystod blwyddyn ysgol 2025-2026 (bydd y plant hyn yn gymwys am le Meithrin Rhan-amser o fis Ionawr 2026) ac y mae eu man preswylio arferol y tu allan i'r  nalgylch diffiniedig yr ysgol.

Pan fydd ysgol wedi derbyn gormod o geisiadau o dan y maen prawf hwn, bydd yr awdurdod lleol yn dyrannu'r lleoedd yn y drefn flaenoriaeth ganlynol:

a) Plant a fydd â brawd neu chwaer yn yr ysgol mewn unrhyw grŵp oedran o'r dosbarth Derbyn i Flwyddyn 6 yn y flwyddyn ysgol 2025-2026.

   Wrth ddyrannu lleoedd, os bydd y lle olaf yn cael ei gynnig i blentyn â brawd neu chwaer yr un oedran, bydd yr awdurdod lleol yn derbyn y brodyr/chwiorydd eraill hefyd.

b) Pellter i'r ysgol, a fesurir yn ôl y llwybr cerdded diogel byrraf sydd ar gael o'r man preswylio arferol i glwyd agored agosaf yr ysgol.

6. Plant a anwyd rhwng 1 Ionawr 2023 a 31 Mawrth 2023 a fydd yn dair oed yn ystod blwyddyn ysgol 2025-2026 (bydd y plant hyn yn gymwys am le Meithrin Rhan-amser o fis Ebrill 2026) ac y mae eu man preswylio arferol yn nalgylch diffiniedig yr ysgol.

Pan fydd ysgol wedi derbyn gormod o geisiadau o dan y maen prawf hwn, bydd yr awdurdod lleol yn dyrannu'r lleoedd yn y drefn flaenoriaeth ganlynol:

a) Plant a fydd â brawd neu chwaer yn yr ysgol mewn unrhyw grŵp oedran o'r dosbarth Derbyn i Flwyddyn 6 yn y flwyddyn ysgol 2025-2026.

Wrth ddyrannu lleoedd, os bydd y lle olaf yn cael ei gynnig i blentyn â brawd neu chwaer yr un oedran, bydd yr awdurdod lleol yn derbyn y brodyr/chwiorydd eraill hefyd.

b) Pellter i'r ysgol, a fesurir yn ôl y llwybr cerdded diogel byrraf sydd ar gael o'r man preswylio arferol i glwyd agored agosaf yr ysgol.

**7.** Plant a anwyd rhwng 1 Ionawr 2023 a 31 Mawrth 2023 a fydd yn dair oed yn ystod blwyddyn ysgol 2025-2026 (bydd y plant hyn yn gymwys am le Meithrin Rhan-amser o fis Ebrill 2026) nad ydynt yn byw yn nalgylch diffiniedig yr ysgol fel arfer ar hyn o bryd, ond y mae eu rhieni/gofalwyr wedi bodloni'r awdurdod lleol, erbyn y dyddiad cau cyhoeddedig ar gyfer cyflwyno'r ceisiadau derbyn i ysgol perthnasol, y bydd y plentyn yn byw yn y dalgylch diffiniedig fel arfer erbyn dechrau'r tymor ysgol y mae'r cais yn berthnasol iddo.

Pan fydd ysgol wedi derbyn gormod o geisiadau o dan y maen prawf hwn, bydd yr awdurdod lleol yn dyrannu'r lleoedd yn y drefn flaenoriaeth ganlynol:

a) Plant a fydd â brawd neu chwaer yn yr ysgol mewn unrhyw grŵp oedran o'r dosbarth Derbyn i Flwyddyn 6 yn y flwyddyn ysgol 2025-2026.

Wrth ddyrannu lleoedd, os bydd y lle olaf yn cael ei gynnig i blentyn â brawd neu chwaer yr un oedran, bydd yr awdurdod lleol yn derbyn y brodyr/chwiorydd eraill hefyd.

b) Pellter i'r ysgol, a fesurir yn ôl y llwybr cerdded diogel byrraf sydd ar gael o'r man preswylio arferol i glwyd agored agosaf yr ysgol.

**8.** Plant a anwyd rhwng 1 Ionawr 2023 a 31 Mawrth 2023 a fydd yn dair oed yn ystod blwyddyn ysgol 2025-2026 (bydd y plant hyn yn gymwys am le Meithrin Rhan-amser o fis Ebrill 2026) ac y mae eu man preswylio arferol y tu allan i'r nalgylch diffiniedig yr ysgol.

Pan fydd ysgol wedi derbyn gormod o geisiadau o dan y maen prawf hwn, bydd yr awdurdod lleol yn dyrannu'r lleoedd yn y drefn flaenoriaeth ganlynol:

a) Plant a fydd â brawd neu chwaer yn yr ysgol mewn unrhyw grŵp oedran o'r dosbarth Derbyn i Flwyddyn 6 yn y flwyddyn ysgol 2025-2026.

Wrth ddyrannu lleoedd, os bydd y lle olaf yn cael ei gynnig i blentyn â brawd neu chwaer yr un oedran, bydd yr awdurdod lleol yn derbyn y brodyr/chwiorydd eraill hefyd.

b) Pellter i’r ysgol, a fesurir yn ôl y llwybr cerdded diogel byrraf sydd ar gael o’r man preswylio arferol i glwyd agored agosaf yr ysgol.

### Dyrannu lleoedd Meithrin Rhan-amser mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg

Wrth benderfynu ar nifer y lleoedd Meithrin Rhan-amser sydd ar gael i’w dyrannu mewn unrhyw ysgol, bydd yr awdurdod lleol yn ystyried capasiti y lle a ddefnyddir ar gyfer disgyblion meithrin, y nifer derbyn cyhoeddedig a nifer y disgyblion Meithrin Amser Llawn sydd eisoes ar gofrestr yr ysgol.

Pan fo nifer y ceisiadau yn fwy na nifer y lleoedd sydd ar gael, bydd yr awdurdod lleol yn defnyddio’r **meini prawf gordanysgrifio** canlynol yn nhrefn flaenoriaeth, i ddyrannu’r lleoedd sydd ar gael:

1. Plant a anwyd rhwng 1 Medi 2022 a 31 Mawrth 2023 a fydd yn dair oed yn ystod blwyddyn ysgol 2025-2026 (bydd y plant hyn yn gymwys am le Meithrin Rhan-amser o fis Ionawr 2026 neu Ebrill 2026) sy’n derbyn gofal neu sydd wedi derbyn gofal a phlant gyda’r ysgol fel y lleoliad a enwir ar ddatganiad o AAA neu CDU a gynhelir gan yr awdurdod lleol.

2. Plant a anwyd rhwng 1 Medi 2022 a 31 Mawrth 2023 a fydd yn dair oed yn ystod blwyddyn ysgol 2025-2026 (bydd y plant hyn yn gymwys am le Meithrin Rhan-amser o fis Ionawr 2026 neu Ebrill 2026) yr mae'r awdurdod lleol wedi derbyn a derbyn tystiolaeth ysgrifenedig gan weithiwr proffesiynol perthnasol bod y lleoliad yn hanfodol am resymau meddygol, seicolegol neu gymdeithasol anorchfygol.

3. Plant a anwyd rhwng 1 Medi 2022 a 31 Mawrth 2023 a fydd yn dair oed yn ystod blwyddyn ysgol 2025-2026 (bydd y plant hyn yn gymwys am le Meithrin Rhan-amser o fis Ionawr 2026) a fydd â brawd neu chwaer yn yr ysgol mewn unrhyw grŵp oedran o’r dosbarth Derbyn i Flwyddyn 6 yn y flwyddyn ysgol 2025-2026.

4. Plant a anwyd rhwng 1 Medi 2022 a 31 Rhagfyr 2022 a fydd yn dair oed yn ystod blwyddyn ysgol 2025-2026 (bydd y plant hyn yn gymwys am le Meithrin Rhan-amser o fis Ionawr 2026) yn seiliedeg ar pellter i’r ysgol, a fesurir yn ôl y llwybr cerdded diogel byrraf sydd ar gael o’r man preswylio arferol i glwyd agored agosaf yr ysgol.

5. Plant a anwyd rhwng 1 Ionawr 2023 a 31 Mawrth 2023 a fydd yn dair oed yn ystod blwyddyn ysgol 2025-2026 (bydd y plant hyn yn gymwys am le Meithrin Rhan-amser o fis Ebrill 2026) a fydd â brawd neu chwaer yn yr ysgol mewn unrhyw grŵp oedran o’r dosbarth Derbyn i Flwyddyn 6 yn y flwyddyn ysgol 2025-2026.

6. Plant a anwyd rhwng 1 Ionawr 2023 a 31 Mawrth 2023 a fydd yn dair oed yn ystod blwyddyn ysgol 2025-2026 (bydd y plant hyn yn gymwys am le Meithrin Rhan-amser o fis Ebrill 2026) yn seiliedeg ar pellter i’r ysgol, a fesurir yn ôl y llwybr

cerdded diogel byrraf sydd ar gael o'r man preswylio arferol i glwyd agored agosaf yr ysgol.

Wrth ddyrannu lleoedd, os bydd y lle olaf yn cael ei gynnig i blentyn â brawd neu chwaer yr un oedran, bydd yr awdurdod lleol yn derbyn y brodyr/chwiorydd eraill hefyd.

### 13.3 Cylch derbyn i ysgol gynradd/fabanod (blwyddyn Derbyn)

Grŵp oedran perthnasol y flwyddyn derbyn yw 4-5 mlwydd oed.

Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i bob plentyn dderbyn addysg amser llawn o ddechrau'r tymor ysgol ar ôl ei ben-blwydd yn bump oed. Ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, derbynnir pob plentyn fel arfer i ddosbarthiadau Derbyn yn y mis Medi ar ôl ei ben-blwydd yn bedair oed. Fodd bynnag, gall rhieni/gofalwyr ddewis gohirio mynediad eu plentyn i'r flwyddyn Derbyn tan yn ddiweddarach yn yr un flwyddyn ysgol. Ni chaiff y gohiriad barhau ar ôl dechrau'r tymor sy'n dilyn pen-blwydd y plentyn yn bump oed, nac ar ôl y flwyddyn ysgol y derbyniwyd y cais derbyn gwreiddiol ar ei chyfer gan yr awdurdod lleol. Pan fydd y rhiant/gofalwr yn dymuno gohirio mynediad y plentyn i'r flwyddyn Derbyn fel y nodir, bydd yr awdurdod lleol yn cadw lle ar gyfer y plentyn.

Mae'n rhaid cyflwyno cais am le yn y flwyddyn Derbyn. **Ni dderbynnir plant i'r flwyddyn Derbyn yn awtomatig mewn unrhyw ysgol gynradd neu fabanod, ni waeth ym mha ysgol y mae'r plentyn yn mynychu dosbarth meithrin.**

#### Yr amserlen ar gyfer mynediad i'r flwyddyn Derbyn ym mis Medi 2025

Mae'r amserlen ddisgwyliedig ar gyfer plant a anwyd rhwng 1 Medi 2020 a 31 Awst 2021 a fydd yn dechrau yn y dosbarth Derbyn ym mis Medi 2025 fel a ganlyn:

| Gweithred | Dyddiad |
|---|---|
| Y dyddiad agor ar gyfer cyflwyno ceisiadau | 10am<br>Dydd Llun, 11 Tachwedd 2024 |
| Dyddiad cau yr awdurdod lleol ar gyfer derbyn ceisiadau | 4pm<br>Dydd Gwener, 14 Chwefror 2025 |
| Rhoi gwybod i'r ymgeiswyr am leoedd a gynigir neu a wrthodir (y 'dyddiad cynnig') | Dydd Mercher, 16 Ebrill 2025 |
| Dyddiad cau ar gyfer cyflwyno apêl gan y rhieni/gofalwyr | 4pm<br>Dydd Mercher, 14 Mai 2025 |

## Dyrannu lleoedd blwyddyn Derbyn ar gyfer mis Medi 2025 mewn ysgolion cyfrwng Saesneg

Bydd yr awdurdod lleol yn derbyn plant hyd at nifer derbyn cyhoeddedig yr ysgol a dim ond o dan amgylchiadau eithriadol y bydd yn derbyn mwy na'r nifer derbyn cyhoeddedig.

Pan fydd nifer y ceisiadau'n fwy na nifer y lleoedd sydd ar gael, bydd yr awdurdod lleol yn defnyddio'r **meini prawf gordanysgrifio** canlynol, yn nhrefn flaenoriaeth, i ddyrannu'r lleoedd sydd ar gael:

1. Plant sy'n derbyn gofal neu sydd wedi derbyn gofal a plant gyda'r ysgol fel y lleoliad a enwir ar ddatganiad o AAA neu CDU a gynhelir gan yr awdurdod lleol.

2. Plant yr mae'r awdurdod lleol wedi derbyn a derbyn tystiolaeth ysgrifenedig gan weithiwr proffesiynol perthnasol bod y lleoliad yn hanfodol am resymau meddygol, seicolegol neu gymdeithasol anorchfygol.

3. Plant y mae eu man preswylio arferol o fewn dalgylch diffiniedig yr ysgol.

   Pan fydd ysgol wedi derbyn gormod o geisiadau o dan y maen prawf hwn, bydd yr awdurdod lleol yn dyrannu'r lleoedd yn y drefn flaenoriaeth ganlynol:

   a) Plant a fydd â brawd neu chwaer yn yr ysgol mewn unrhyw grŵp oedran o Flwyddyn 1 i Flwyddyn 6 ar gyfer ysgolion cynradd , neu Flwyddyn 1 a Blwyddyn 2 ar gyfer ysgolion babanod, yn y flwyddyn ysgol 2025-2026.

      Wrth ddyrannu lleoedd, os bydd y lle olaf yn cael ei gynnig i blentyn â brawd neu chwaer yr un oedran, bydd yr awdurdod lleol yn derbyn y brodyr/chwiorydd eraill hefyd.

   b) Pellter i'r ysgol, a fesurir yn ôl y llwybr cerdded diogel byrraf sydd ar gael o'r man preswylio arferol i glwyd agored agosaf yr ysgol.

4. Plant nad ydynt yn byw yn nalgylch diffiniedig yr ysgol fel arfer ar hyn o bryd, ond y mae eu rhieni/gofalwyr wedi bodloni'r awdurdod lleol, erbyn y dyddiad cau cyhoeddedig ar gyfer cyflwyno'r ceisiadau derbyn i ysgol perthnasol, y bydd y plentyn yn byw yn y dalgylch diffiniedig fel arfer erbyn dechrau'r tymor ysgol y mae'r cais yn berthnasol iddo.

   Pan fydd ysgol wedi derbyn gormod o geisiadau o dan y maen prawf hwn, bydd yr awdurdod lleol yn dyrannu'r lleoedd yn y drefn flaenoriaeth ganlynol:

   a) Plant a fydd â brawd neu chwaer yn yr ysgol mewn unrhyw grŵp oedran o Flwyddyn 1 i Flwyddyn 6 ar gyfer ysgolion cynradd , neu Flwyddyn 1 a Blwyddyn 2 ar gyfer ysgolion babanod, yn y flwyddyn ysgol 2025-2026.

Wrth ddyrannu lleoedd, os bydd y lle olaf yn cael ei gynnig i blentyn â brawd neu chwaer yr un oedran, bydd yr awdurdod lleol yn derbyn y brodyr/chwiorydd eraill hefyd.

b) Pellter i'r ysgol, a fesurir yn ôl y llwybr cerdded diogel byrraf sydd ar gael o'r man preswylio arferol i glwyd agored agosaf yr ysgol.

5. Bydd plant sy'n byw y tu allan i ddalgylch diffiniedig yr ysgol yn cael eu hystyried ar gyfer unrhyw leoedd sydd ar ôl yn ôl y drefn flaenoriaeth a nodir isod:

   a) Plant a fydd â brawd neu chwaer yn yr ysgol mewn unrhyw grŵp oedran o Flwyddyn 1 i Flwyddyn 6 ar gyfer ysgolion cynradd , neu Flwyddyn 1 a Blwyddyn 2 ar gyfer ysgolion babanod, yn y flwyddyn ysgol 2025-2026.

      Wrth ddyrannu lleoedd, os bydd y lle olaf yn cael ei gynnig i blentyn â brawd neu chwaer yr un oedran, bydd yr awdurdod lleol yn derbyn y brodyr/chwiorydd eraill hefyd.

   b) Pellter i'r ysgol, a fesurir yn ôl y llwybr cerdded diogel byrraf sydd ar gael o'r man preswylio arferol i glwyd agored agosaf yr ysgol.

## Dyrannu lleoedd blwyddyn Derbyn ar gyfer mis Medi 2025 mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg

Bydd yr awdurdod lleol yn derbyn plant hyd at nifer derbyn cyhoeddedig yr ysgol a dim ond o dan amgylchiadau eithriadol y bydd yn derbyn mwy na'r nifer derbyn cyhoeddedig.

Pan fydd nifer y ceisiadau'n fwy na nifer y lleoedd sydd ar gael, bydd yr awdurdod lleol yn defnyddio'r **meini prawf gordanysgrifio** canlynol, yn nhrefn flaenoriaeth, i ddyrannu'r lleoedd sydd ar gael:

1. Plant sy'n derbyn gofal neu sydd wedi derbyn gofal a plant gyda'r ysgol fel y lleoliad a enwir ar ddatganiad o AAA neu CDU a gynhelir gan yr awdurdod lleol.

2. Plant yr mae'r awdurdod lleol wedi derbyn a derbyn tystiolaeth ysgrifenedig gan weithiwr proffesiynol perthnasol bod y lleoliad yn hanfodol am resymau meddygol, seicolegol neu gymdeithasol anorchfygol.

3. Plant a fydd â brawd neu chwaer yn yr ysgol mewn unrhyw grŵp oedran o Flwyddyn 1 i Flwyddyn 6 yn y flwyddyn ysgol 2025-2026.

4. Pellter i'r ysgol, a fesurir yn ôl y llwybr cerdded diogel byrraf sydd ar gael o'r man preswylio arferol i glwyd agored agosaf yr ysgol.

Wrth ddyrannu lleoedd, os bydd y lle olaf yn cael ei gynnig i blentyn â brawd neu chwaer yr un oedran, bydd yr awdurdod lleol yn derbyn y brodyr/chwiorydd eraill hefyd.

## 13.4 Cylch derbyn i ysgol iau (Blwyddyn 3)

Mewn ysgolion cynradd, adrannau o'r un ysgol yw'r adrannau babanod ac iau a bydd plant yn symud drwy'r ysgol o'r adran fabanod i'r adran iau heb orfod trosglwyddo i rywle arall. **Nid** oes rhaid i rieni/ofalwyr lenwi ffurflen gais derbyn i ysgol felly, gan fod y plant eisoes wedi eu cofrestru fel disgyblion yn yr ysgol gynradd.

Nid yw plant sy'n mynychu Blwyddyn 2 mewn ysgol fabanod yn cael eu trosglwyddo yn awtomatig i Flwyddyn 3 mewn ysgol iau. Mae'n rhaid cyflwyno cais am le ym Mlwyddyn 3 mewn ysgol iau. **Nid oes derbyniad awtomatig i unrhyw ysgol iau na chynradd, ni waeth pa ysgol fabanod neu ysgol gynradd y mae plentyn yn ei mynychu ar hyn o bryd.**

Fel arfer, bydd plant yn dechrau Blwyddyn 3 yn yr ysgol iau ar ddechrau'r flwyddyn ysgol sy'n dilyn eu pen-blwydd yn saith oed.

Ym Mhen-y-bont ar Ogwr, mae un ysgol iau (hynny yw, Ysgol Iau Llangewydd), sy'n ysgol cyfrwng Saesneg.

Os nad yw'r rhieni/gofalwyr yn dymuno i'w plentyn fynychu Blwyddyn 3 mewn ysgol iau ac yn hytrach eu bod nhw'n dymuno i'w plentyn fynychu Blwyddyn 3 mewn ysgol gynradd safonol, mae'n rhaid iddynt gyflwyno cais am dderbyniad/drosglwyddiad yn ystod y flwyddyn. Dylai rhieni/gofalwyr nodi y gall lleoedd Blwyddyn 3 mewn ysgol gynradd safonol fod yn gyfyngedig iawn neu beidio â bod ar gael. Hefyd, ni fydd yr awdurdod lleol yn gwneud penderfyniadau ynghylch derbyniadau mewn cysylltiad â cheisiadau derbyn/trosglwyddo yn ystod y flwyddyn i ddechrau ym mis Medi 2025 tan Pasg 2025.

### Yr amserlen ar gyfer derbyniadau i ysgolion iau Blwyddyn 3 ym mis Medi 2025

Mae'r amserlen ddisgwyliedig ar gyfer plant a anwyd rhwng 1 Medi 2017 a 31 Awst 2018, sy'n symud o ysgol fabanod (Blwyddyn 2) i ysgol iau (Blwyddyn 3) ym mis Medi 2025 fel a ganlyn:

| Gweithred | Dyddiad |
|---|---|
| Y dyddiad agor ar gyfer cyflwyno ceisiadau | 10am<br>Dydd Llun, 11 Tachwedd 2024 |
| Dyddiad cau yr awdurdod lleol ar gyfer derbyn ceisiadau | 4pm<br>Dydd Gwener, 14 Chwefror 2025 |
| Rhoi gwybod i'r ymgeiswyr am leoedd a gynigir neu a wrthodir (y 'dyddiad cynnig') | Dydd Mercher, 16 Ebrill 2025 |
| Dyddiad cau ar gyfer cyflwyno apêl gan y rhieni/gofalwyr | 4pm<br>Dydd Mercher, 14 Mai 2025 |

## Dyrannu lleoedd ysgolion iau Blwyddyn 3 ar gyfer mis Medi 2025

Bydd yr awdurdod lleol yn derbyn plant hyd at nifer derbyn cyhoeddedig yr ysgol a dim ond o dan amgylchiadau eithriadol y bydd yn derbyn mwy na’r nifer derbyn cyhoeddedig.

Pan fydd nifer y ceisiadau’n fwy na nifer y lleoedd sydd ar gael, bydd yr awdurdod lleol yn defnyddio'r **meini prawf gordanysgrifio** canlynol, yn nhrefn flaenoriaeth, i ddyrannu'r lleoedd sydd ar gael:

1. Plant sy’n derbyn gofal neu sydd wedi derbyn gofal a plant gyda’r ysgol fel y lleoliad a enwir ar ddatganiad o AAA neu CDU a gynhelir gan yr awdurdod lleol.

2. Plant yr mae'r awdurdod lleol wedi derbyn a derbyn tystiolaeth ysgrifenedig gan weithiwr proffesiynol perthnasol bod y lleoliad yn hanfodol am resymau meddygol, seicolegol neu gymdeithasol anorchfygol.

3. Plant y mae eu man preswylio arferol o fewn dalgylch diffiniedig yr ysgol.

   Pan fydd ysgol wedi derbyn gormod o geisiadau o dan y maen prawf hwn, bydd yr awdurdod lleol yn dyrannu’r lleoedd yn y drefn flaenoriaeth ganlynol:

   a) Plant a fydd â brawd neu chwaer yn yr ysgol mewn unrhyw grŵp oedran o Flwyddyn 4 i Flwyddyn 6 yn y flwyddyn ysgol 2025-2026.

      Wrth ddyrannu lleoedd, os bydd y lle olaf yn cael ei gynnig i blentyn â brawd neu chwaer yr un oedran, bydd yr awdurdod lleol yn derbyn y brodyr/chwiorydd eraill hefyd.

   b) Pellter i’r ysgol, a fesurir yn ôl y llwybr cerdded diogel byrraf sydd ar gael o’r man preswylio arferol i glwyd agored agosaf yr ysgol.

4. Plant nad ydynt yn byw yn nalgylch diffiniedig yr ysgol fel arfer ar hyn o bryd, ond y mae eu rhieni/gofalwyr wedi bodloni’r awdurdod lleol, erbyn y dyddiad cau cyhoeddedig ar gyfer cyflwyno’r ceisiadau derbyn i ysgol perthnasol, y bydd y plentyn yn byw yn y dalgylch diffiniedig fel arfer erbyn dechrau’r tymor ysgol y mae’r cais yn berthnasol iddo.

   Pan fydd ysgol wedi derbyn gormod o geisiadau o dan y maen prawf hwn, bydd yr awdurdod lleol yn dyrannu’r lleoedd yn y drefn flaenoriaeth ganlynol:

   a) Plant a fydd â brawd neu chwaer yn yr ysgol mewn unrhyw grŵp oedran o Flwyddyn 4 i Flwyddyn 6 yn y flwyddyn ysgol 2025-2026.

      Wrth ddyrannu lleoedd, os bydd y lle olaf yn cael ei gynnig i blentyn â brawd neu chwaer yr un oedran, bydd yr awdurdod lleol yn derbyn y brodyr/chwiorydd eraill hefyd.

b) Pellter i'r ysgol, a fesurir yn ôl y llwybr cerdded diogel byrraf sydd ar gael o'r man preswylio arferol i glwyd agored agosaf yr ysgol.

5. Bydd plant sy'n byw y tu allan i ddalgylch diffiniedig yr ysgol yn cael eu hystyried ar gyfer unrhyw leoedd sydd ar ôl yn ôl y drefn flaenoriaeth a nodir isod:

   a) Plant a fydd â brawd neu chwaer yn yr ysgol mewn unrhyw grŵp oedran o Flwyddyn 4 i Flwyddyn 6 yn y flwyddyn ysgol 2025-2026.

      Wrth ddyrannu lleoedd, os bydd y lle olaf yn cael ei gynnig i blentyn â brawd neu chwaer yr un oedran, bydd yr awdurdod lleol yn derbyn y brodyr/chwiorydd eraill hefyd.

   b) Pellter i'r ysgol, a fesurir yn ôl y llwybr cerdded diogel byrraf sydd ar gael o'r man preswylio arferol i glwyd agored agosaf yr ysgol.

### 13.5 Cylch derbyn i ysgol uwchradd (Blwyddyn 7)

Fel arfer, bydd plant yn dechrau Blwyddyn 7 yn yr ysgol uwchradd ar ddechrau'r flwyddyn ysgol sy'n dilyn eu pen-blwydd yn 11 oed.

Mae'n rhaid cyflwyno cais am le ym Mlwyddyn 7. **Nid oes derbyniad awtomatig i unrhyw ysgol uwchradd, ni waeth pa ysgol gynradd y mae plentyn yn ei mynychu ar hyn o bryd.**

Ym Mhen-y-bont ar Ogwr, mae un ysgol uwchradd Gymraeg (hynny yw, Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd). Mae un ysgol uwchradd fydd (hynny yw, Ysgol Uwchradd Gatholig Archesgob McGrath), nad yr awdurdod lleol yw'r awdurdod derbyn ar ei chyfer. Mae pob ysgol uwchradd arall yn gyfrwng Saesneg.

#### Yr amserlen ar gyfer derbyniadau i Flwyddyn 7 ysgolion uwchradd ym mis Medi 2025

Mae'r amserlen ddisgwyliedig ar gyfer plant a anwyd rhwng 1 Medi 2013 a 31 Awst 2014, sy'n trosglwyddo o ysgol iau/gynradd (Blwyddyn 6) i ysgol uwchradd (Blwyddyn 7) ym mis Medi 2025 fel a ganlyn:

| Gweithred | Dyddiad |
|---|---|
| Y dyddiad agor ar gyfer cyflwyno ceisiadau | 10am<br>Dydd Llun, 14 Hydref 2024 |
| Dyddiad cau yr awdurdod lleol ar gyfer derbyn ceisiadau | 4pm<br>Dydd Gwener, 17 Ionawr 2025 |
| Rhoi gwybod i'r ymgeiswyr am leoedd a gynigir neu a wrthodir (y 'dyddiad cynnig') | Dydd Llun, 3 Mawrth 2025 |
| Dyddiad cau ar gyfer cyflwyno apêl gan y rhieni/gofalwyr | 4pm<br>Dydd Llun, 31 Mawrth 2025 |

## Dyrannu lleoedd ysgolion uwchradd Blwyddyn 7 ar gyfer mis Medi 2025 ar gyfer ysgolion cyfrwng Saesneg

Bydd yr awdurdod lleol yn derbyn plant hyd at nifer derbyn cyhoeddedig yr ysgol a dim ond o dan amgylchiadau eithriadol y bydd yn derbyn mwy na’r nifer derbyn cyhoeddedig.

Pan fydd nifer y ceisiadau’n fwy na nifer y lleoedd sydd ar gael, bydd yr awdurdod lleol yn defnyddio'r **meini prawf gordanysgrifio** canlynol, yn nhrefn flaenoriaeth, i ddyrannu'r lleoedd sydd ar gael:

1. Plant sy’n derbyn gofal neu sydd wedi derbyn gofal a plant gyda’r ysgol fel y lleoliad a enwir ar ddatganiad o AAA neu CDU a gynhelir gan yr awdurdod lleol.

2. Plant yr mae'r awdurdod lleol wedi derbyn a derbyn tystiolaeth ysgrifenedig gan weithiwr proffesiynol perthnasol bod y lleoliad yn hanfodol am resymau meddygol, seicolegol neu gymdeithasol anorchfygol.

3. Plant y mae eu man preswylio arferol o fewn dalgylch diffiniedig yr ysgol.

   Pan fydd ysgol wedi derbyn gormod o geisiadau o dan y maen prawf hwn, bydd yr awdurdod lleol yn dyrannu’r lleoedd yn y drefn flaenoriaeth ganlynol:

   a) Plant a fydd â brawd neu chwaer yn yr ysgol mewn unrhyw grŵp oedran o Flwyddyn 8 i Flwyddyn 11 yn y flwyddyn ysgol 2025-2026.

      Wrth ddyrannu lleoedd os cynigir y lle olaf i blentyn a aned fel rhan o enedigaeth luosog (e.e. gefell neu dripled), bydd yr awdurdod lleol hefyd yn derbyn y sibling arall/siblingiaid eraill.

   b) Pellter i’r ysgol, a fesurir yn ôl y llwybr cerdded diogel byrraf sydd ar gael o’r man preswylio arferol i glwyd agored agosaf yr ysgol.

4. Plant nad ydynt yn byw yn nalgylch diffiniedig yr ysgol fel arfer ar hyn o bryd, ond y mae eu rhieni/gofalwyr wedi bodloni’r awdurdod lleol, erbyn y dyddiad cau cyhoeddedig ar gyfer cyflwyno’r ceisiadau derbyn i ysgol perthnasol, y bydd y plentyn yn byw yn y dalgylch diffiniedig fel arfer erbyn dechrau’r tymor ysgol y mae’r cais yn berthnasol iddo.

   Pan fydd ysgol wedi derbyn gormod o geisiadau o dan y maen prawf hwn, bydd yr awdurdod lleol yn dyrannu’r lleoedd yn y drefn flaenoriaeth ganlynol:

   a) Plant a fydd â brawd neu chwaer yn yr ysgol mewn unrhyw grŵp oedran o Flwyddyn 8 i Flwyddyn 11 yn y flwyddyn ysgol 2025-2026.

      Wrth ddyrannu lleoedd, os bydd y lle olaf yn cael ei gynnig i blentyn â brawd neu chwaer yr un oedran, bydd yr awdurdod lleol yn derbyn y brodyr/chwiorydd eraill hefyd.

b) Pellter i'r ysgol, a fesurir yn ôl y llwybr cerdded diogel byrraf sydd ar gael o'r man preswylio arferol i glwyd agored agosaf yr ysgol.

5. Bydd plant sy'n byw y tu allan i ddalgylch diffiniedig yr ysgol yn cael eu hystyried ar gyfer unrhyw leoedd sydd ar ôl yn ôl y drefn flaenoriaeth a nodir isod:

   a) Plant a fydd â brawd neu chwaer yn yr ysgol mewn unrhyw grŵp oedran o Flwyddyn 8 i Flwyddyn 11 yn y flwyddyn ysgol 2025-2026.

      Wrth ddyrannu lleoedd, os bydd y lle olaf yn cael ei gynnig i blentyn â brawd neu chwaer yr un oedran, bydd yr awdurdod lleol yn derbyn y brodyr/chwiorydd eraill hefyd.

   b) Pellter i'r ysgol, a fesurir yn ôl y llwybr cerdded diogel byrraf sydd ar gael o'r man preswylio arferol i glwyd agored agosaf yr ysgol.

## Dyrannu lleoedd ysgolion uwchradd Blwyddyn 7 ar gyfer mis Medi 2025 ar gyfer yr ysgol cyfrwng Cymraeg

Bydd yr awdurdod lleol yn derbyn plant hyd at nifer derbyn cyhoeddedig yr ysgol a dim ond o dan amgylchiadau eithriadol y bydd yn derbyn mwy na'r nifer derbyn cyhoeddedig.

Pan fydd nifer y ceisiadau'n fwy na nifer y lleoedd sydd ar gael, bydd yr awdurdod lleol yn defnyddio'r **meini prawf gordanysgrifio** canlynol, yn nhrefn flaenoriaeth, i ddyrannu'r lleoedd sydd ar gael:

1. Plant sy'n derbyn gofal neu sydd wedi derbyn gofal a plant gyda'r ysgol fel y lleoliad a enwir ar ddatganiad o AAA neu CDU a gynhelir gan yr awdurdod lleol.

2. Plant yr mae'r awdurdod lleol wedi derbyn a derbyn tystiolaeth ysgrifenedig gan weithiwr proffesiynol perthnasol bod y lleoliad yn hanfodol am resymau meddygol, seicolegol neu gymdeithasol anorchfygol.

3. Plant a fydd â brawd neu chwaer yn yr ysgol mewn unrhyw grŵp oedran o Flwyddyn 8 i Flwyddyn 11yn y flwyddyn ysgol 2025-2026.

4. Pellter i'r ysgol, a fesurir yn ôl y llwybr cerdded diogel byrraf sydd ar gael o'r man preswylio arferol i glwyd agored agosaf yr ysgol.

Wrth ddyrannu lleoedd, os bydd y lle olaf yn cael ei gynnig i blentyn â brawd neu chwaer yr un oedran, bydd yr awdurdod lleol yn derbyn y brodyr/chwiorydd eraill hefyd.

# 14. Esboniadau o'r meini prawf gordanysgrifio

## 14.1 Plant sy'n derbyn gofal neu sydd wedi derbyn gofal

Mae ar yr awdurdod lleol ddyletswydd i roi'r flaenoriaeth uchaf i blant sy'n derbyn gofal neu sydd wedi derbyn gofal yn y meini prawf gordanysgrifio.

Yn achos plentyn sy'n derbyn gofal, mae'n rhaid i'r rhiant corfforaethol lenwi a chyflwyno'r ffurflen gais derbyn i ysgol (hynny yw, yr awdurdod lleol sy'n gyfrifol am y plentyn) ac mae'n rhaid darparu tystiolaeth ategol (Gorchymyn Gofal neu Orchymyn Gofal Dros Dro).

Yn achos plant sydd wedi derbyn gofal, mae'n rhaid cyflwyno'r cais derbyn i ysgol gyda thystiolaeth ategol gan y rhiant corfforaethol gynt.

Mae'n rhaid cyflwyno'r dystiolaeth ategol berthnasol gyda'r cais.

## 14.2 Plant sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig (AAA) neu gynllun datblygu unigol (CDU) a gynhelir gan yr awdurdod lleol

I fodloni'r maen prawf hwn, rhaid i'r plentyn gael datganiad o AAAneu gynllun datblygu unigol (CDU) a gynhelir gan yr awdurdod lleol ac mae'r cais  yn ymwneud â lle prif ffrwd yn yr ysgol a enwir yn y datganiad AAA neu'r CDU a gynhelir gan yr awdurdod lleol.

## 14.3 Plant y mae lleoliad yn hanfodol ar eu cyfer am resymau meddygol, seicolegol neu gymdeithasol anorchfygol

I fodloni'r maen prawf hwn:

1. mae'n **rhaid** i ymgeiswyr ddarparu tystiolaeth ategol gan weithiwr  proffesiynol/wyr perthnasol, megis gweithiwr iechyd proffesiynol cofrestredig a/neu weithiwr cymdeithasol, sy'n nodi'r rhesymau pam mai'r ysgol a enwir yw'r ysgol fwyaf addas a pha anawsterau fyddai'n codi pe byddai'n rhaid i'r plentyn fynychu ysgol arall. Mae'n rhaid i'r dystiolaeth fod wedi'i dyddio tri mis neu lai cyn dyddiad cyflwyno'r cais; **a**

2. bod y dystiolaeth ysgrifenedig yn cael ei derbyn gan yr awdurdod lleol fel un sy'n ddigonol i benderfynu bod lleoliad yn yr ysgol a ffefrir yn hanfodol i'r plentyn.

**Nid yw tystiolaeth sy'n cadarnhau diagnosis neu amgylchiadau plentyn yn unig yn bodloni'r maen prawf hwn.**

Ystyrir ceisiadau ar gyfer gofalwyr ifanc o dan y maen prawf hwn yn amodol ar ddarparu'r dystiolaeth ofynnol fel y nodir uchod.

Mae'r awdurdod lleol yn disgwyl bod yr ymgeisydd yn darparu'r dystiolaeth ofynnol ar yr adeg y cyflwynir y cais. Os nad yw hynny'n bosibl, mae'n rhaid bod yr awdurdod yn cael gwybod am hyn a'i fod yn fodlon â'r rhesymau ac yna mae'n rhaid darparu'r dystiolaeth

ofynnol cyn dyddiad ac amser cau y cylch derbyn. Pe na ddarperir y dystiolaeth ofynnol i'r awdurdod lleol cyn cau y cylch derbyn, ni fydd y cais yn cael ei ystyried ar gyfer ei flaenoriaethu o dan y maen prawf hwn.

## 14.4 Cyfeiriad / man preswylio arferol y plentyn

Mae'n rhaid i ymgeiswyr gofnodi cyfeiriad cyfredol lle mae'r plentyn yn byw fel arfer ar ffurflen gais derbyn i ysgol.

Wrth ystyried a yw plentyn yn byw o fewn dalgylch ysgol (ysgolion cyfrwng Saesneg) neu agosrwydd at yr ysgol (ysgolion cyfrwng Cymraeg), bydd yr awdurdod lleol yn ystyried mai man preswylio arferol y plentyn yw'r cyfeiriad cartref a hwn fydd yn bodloni'r meini prawf derbyn.

Pan nad yw rhieni/gofalwyr y plentyn yn byw gyda'i gilydd ond eu bod yn rhannu'r cyfrifoldeb am y plentyn, a bod y plentyn yn byw gyda'r ddau riant/ofalwr am ran o'r cyfnod pan fydd y plentyn yn derbyn addysg, ystyrir bod y plentyn fel arfer yn byw yn y cyfeiriadau lle mae'r **ddau** riant/ofalwr yn fel arfer yn byw. Yn unol â hynny, bydd yr awdurdod lleol yn derbyn cyfeiriad y naill riant/ofalwr neu'r llall fel man preswylio arferol y plentyn.

### Newidiadau i gyfeiriad/ man preswylio arferol y plentyn

Os bydd man preswylio arferol y plentyn yn newid ar ôl cyflwyno'r cais derbyn i ysgol:

1. Mae'n **rhaid** rhoi gwybod i'r awdurdod lleol **yn ysgrifenedig** ar unwaith (drwy e-bost neu lythyr).

2. Os caiff yr awdurdod wybod am y newid **cyn** y dyddiad ac amser cau'r cylch derbyn, ystyrir y newid (hynny yw, y man preswyl arferol newydd) wrth ddefnyddio'r meini prawf gordanysgrifio a dyrannu lle.

3. Os caiff yr awdurdod wybod am y newid **ar ôl** dyddiad ac amser cau'r cylch derbyn, defnyddir y man preswylio arferol (hynny yw, y man preswylio arferol gwreiddiol) a nodir ar y cais wrth ddefnyddio'r meini prawf gordanysgrifio a dyrannu lle. Bydd yr ymgeisydd yn cael llenwi a chyflwyno cais hwyr os nad yw'n ffafrio'r ysgol y dyrennir lle ynddi mwyach, a byddai hyn yn amodol ar y darpariaethau sy'n berthnasol i geisiadau hwyr (gweler adran 13.1).

4. Os nad yw'r ymgeisydd yn rhoi gwybod i'r awdurdod lleol am newid man preswylio arferol cyn y dyddiad y byddai'r plentyn yn dechrau ysgol, yna bydd yr awdurdod lleol yn cymryd y camau a nodir isod o dan 'rhoi gwybodaeth anwir neu gamarweiniol'.

### Ceisiadau a wneir ar sail newid man preswylio arferol **yn y dyfodol**

Lle bo'r ymgeisydd yn y broses o symud tŷ ar yr adeg y cyflwynir y cais ac yn mynegi i ddewis ysgol sy'n ysgol ddalgylch ar gyfer eu cyfeiriad yn y dyfodol (ysgolion cyfrwng

Saesneg) neu'r ysgol agosaf at y cyfeiriad hwnnw yn y dyfodol (ysgolion cyfrwng Cymraeg), **bydd rhaid** i'r ymgeisydd gofnodi hyn ar y ffurflen gais a **bydd rhaid** darparu'r dystiolaeth ganlynol i'r awdurdod lleol:

- `tystiolaeth ysgrifenedig gan gyfreithiwr bod contractau wedi'u cyfnewid ar gyfer prynu'r eiddo a bod dyddiad cwblhau'r pryniant wedi'i gytuno, fel y bydd y plentyn yn symud i'r eiddo newydd ac yn byw yn y cyfeiriad hwn erbyn dechrau'r tymor ysgol y mae'r cais yn ymwneud ag ef; neu
- gytundeb tenantiaeth ysgrifenedig yn dangos y bydd y plentyn yn byw yn y cyfeiriad erbyn dechrau'r tymor ysgol y mae'r cais yn berthnasol iddo.

Mae'n **rhaid** i'r awdurdod lleol dderbyn yr holl dystiolaeth ofynnol **cyn y dyddiad ac amser cau ar gyfer y rownd dderbyn** a chyfrifoldeb yr ymgeisydd yw darparu'r dystiolaeth ofynnol i'r awdurdod lleol erbyn y terfyn amser hwnnw. Os na dderbynnir y dystiolaeth ofynnol cyn dyddiad cau, ymdrinnir â'r cais fel cais y tu allan i ddalgylch yr ysgol/ion y mynegir dewis amdani/amdanynt (ysgolion cyfrwng Saesneg) neu bydd y pellter i'r ysgol a ffefrir (ysgolion cyfrwng Cymraeg) yn cael ei fesur gan ddefnyddio'r cyfeiriad cyfredol (gwreiddiol).

Os nad yw'r dystiolaeth yn cadarnhau y bydd y plentyn yn preswylio yn y cyfeiriad newydd erbyn dechrau'r tymor ysgol y mae'r cais yn berthnasol iddo, bydd y cais yn cael ei brosesu ar sail y cyfeiriad cyfredol (gwreiddiol).

### Rhoi gwybodaeth anwir neu gamarweiniol ynghylch y man preswylio arferol

Os bydd yr awdurdod lleol yn tynnu lle mewn ysgol yn ôl, bydd angen cais newydd yn seiliedig ar y man preswylio arferol cywir, a chynigir hawl i apelio os gwrthodir lle yn yr ysgol(ion) a ddewisir.

## 14.5 Brodyr a Chwiorydd

Ystyrir brawd neu chwaer yn hanner brawd/chwaer neu'n frawd/chwaer lawn, yn llysfrawd/llyschwaer, yn frawd/chwaer a fabwysiadwyd, neu'n blentyn sy'n byw yn yr un cartref.

Ystyrir cais gan ddefnyddio'r maen prawf ar gyfer brodyr a chwiorydd os bodlonir y meini prawf canlynol:

1. cofnodir manylion llawn y brodyr a chwiorydd ar y cais; a
2. **byddai**'r brawd neu chwaer a'r plentyn sy'n destun y cais **yn mynychu'r un ysgol ar yr un pryd** a bod y brawd/chwaer o oedran addysg statudol.

   Mae hyn yn golygu:

   - ar gyfer ceisiadau blwyddyn Dderbyn, rhaid i'r brawd neu chwaer fod yn Flwyddyn 1 i Flwyddyn 6 yn y flwyddyn ysgol y mae'r cais yn cael ei wneud ar ei chyfer;

- ar gyfer ceisiadau ysgol iau Blwyddyn 3, rhaid i'r brawd neu chwaer fod ym Mlwyddyn 4 i Flwyddyn 6 yn y flwyddyn ysgol y mae'r cais yn cael ei wneud ar ei chyfer;
- ar gyfer ceisiadau ysgol uwchradd Blwyddyn 7, rhaid i'r brawd neu chwaer fod ym Mlwyddyn 8 i Flwyddyn 11 yn y flwyddyn ysgol y mae'r cais yn cael ei wneud ar ei chyfer;
- ar gyfer ceisiadau Meithrin Amser Llawn a Methrin Rhan-amser, rhaid i'r brawd neu chwaer fod yn y flwyddyn Dderbynfa i Flwyddyn 6 yn y flwyddyn ysgol y mae'r cais yn cael ei wneud ar ei chyfer. Gan fod yr amserlenni'n debyg iawn ar gyfer y cylchoedd derbyn Derbynfa, Meithrin Amser Llawn a Meithrin Rhan-amser, efallai na fydd rhiant / gofalwr wedi cael gwybod am ganlyniad cais Derbynfa i blentyn wrth gwblhau Meithrin Amser Llawn neu Meithrin Rhan-amser cais am blentyn arall. Bydd y rhiant / gofalwr yn gallu cofnodi manylion y plentyn y mae cais Derbynfa wedi'i gyflwyno ar ei gyfer ond ni fydd y maen prawf brawd neu chwaer yn cael ei fodloni os na fydd yr awdurdod lleol yn cynnig Derbynfa yn yr ysgol berthnasol i'r brawd neu chwaer.

### Rhoi gwybodaeth anwir neu gamarweiniol am frodyr a chwiorydd

Mae'r awdurdod lleol yn cadw'r hawl i wirio unrhyw wybodaeth a ddarperir gan frodyr a chwiorydd. Bydd hyn er mwyn cynorthwyo i atal a chanfod twyll er mwyn cael mantais annheg yn y system ceisiadau ysgol ac o dan Atodlen 2, rhan 1, 2(1) o Ddeddf Diogelu Data 2018.

Os daw'r awdurdod lleol i'r casgliad bod rhiant/gofalwr wedi darparu gwybodaeth dwyllodrus neu'n fwriadol gamarweiniol yn ymwneud â'r maen prawf sy'n ymwneud â brawd neu chwaer er mwyn cael y fantais o leoliad ysgol penodol na fyddai gan y plentyn hawl iddo fel arall, bydd yr awdurdod lleol yn gweithredu'n unol â hynny gan weithredu paragraffau 3.40 a 3.41 o'r Cod Derbyniadau Ysgol 2013.

Os bydd yr awdurdod lleol yn tynnu lle mewn ysgol yn ôl, bydd angen cais newydd yn seiliedig ar y wybodaeth gywir, a chynigir hawl i apelio os gwrthodir lle yn yr ysgol(ion) a ddewisir.

## 14.6 Plant aml-enedigaeth

Diffiniad aml-enedigaeth yw genedigaeth mwy nag un baban o un beichiogrwydd (er enghraifft, genedigaeth gefeilliaid, tripledi ac ati).

Wrth ddyrannu lleoedd, os bydd y lle olaf yn cael ei gynnig i blentyn â brawd neu chwaer yr un oedran, bydd yr awdurdod lleol hefyd yn derbyn y plentyn/plant genedigaeth luosog eraill y derbyniwyd cais ar eu cyfer ar yr un pryd ac ar gyfer yr un ysgol(ion).

### 14.7 Pellter i'r ysgol

Mesurir hyn o fan preswylio arferol y plentyn i glwyd agored agosaf yr ysgol y caiff disgyblion ei defnyddio i gael mynediad i dir yr ysgol.

Yr awdurdod lleol fydd yn penderfynu a yw unrhyw fynedfa mewn unrhyw ysgol yn giât ysgol hygyrch neu beidio.

O ran cartrefi mewn blociau o fflatiau, mesurir y pellter o fynediad blaen pob fflat.

Cyfrifir y pellter i bedwar lle degol.

Mae'r awdurdod lleol yn defnyddio meddalwedd sy'n ystyried y llwybrau cerdded sydd wedi'u hasesu a sydd ar gael i'r ysgol/ion i fesur pob pellter ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Ni fydd yr awdurdod lleol yn ystyried unrhyw lwybrau cerdded eraill y ysgol y gall rhieni / gofalwyr ddewis eu defnyddio.

O ran ceisiadau pan fo man preswylio arferol y plentyn y tu allan i Fwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, mesurir y pellter gan ddefnyddio gwasanaethau ar-lein sydd ar gael yn gyhoeddus.

## 15. Y broses cynnig ar gyfer cylchoedd derbyn

### 15.1 Dyddiadau'r cynigion

Mae Cod Derbyniadau Ysgol 2013 yn nodi sut y mae'n rhaid i awdurdodau derbyn yng Nghymru nodi'r dyddiad cynnig ar gyfer cylchoedd derbyn i ysgolion cynradd (dosbarth derbyn), ysgolion iau ac ysgolion uwchradd, fel y nodir gan Rheoliadau Derbyniadau Ysgol (Dyddiad Cynnig Cyffredin) (Cymru) 2013. Nodir y dyddiadau cynnig perthnasol ar gyfer holl gylchoedd derbyn 2025-2026 yn adran 13.

### 15.2 Cyfathrebu'r canlyniad

Bydd rhieni/gofalwyr sy'n cyflwyno cais erbyn dyddiad cau cyhoeddedig cylch derbyn, neu rieni/ofalwyr y mae eu cais hwyr wedi ei dderbyn gan yr awdurdod lleol i'w gynnwys yn y broses o ddyrannu lleoedd ar gyfer y dyddiad cynnig, yn cael gwybod yn ysgrifenedig am ganlyniad eu cais..

Ni ddylai rhieni/gofalwyr ddisgwyl y bydd y canlyniadau yn cael eu cyfleu iddynt ar lafar.

Pe gwrthodir cais, bydd yr hysbysiad yn nodi'r rhesymau dros y penderfyniad a bydd yn rhoi gwybod i rieni/ofalwyr am y broses apelio. Gan fod addysg feithrin yn anstatudol, **nid oes gan rieni/ofalwyr unrhyw hawl i apelio yn erbyn ceisiadau aflwyddiannus ar gyfer ceisiadau i ddosbarthiadau meithrin.**

### 15.3 Rhestrau aros

Mae'r awdurdod lleol yn cadw rhestrau aros ar gyfer ysgolion lle mae nifer y ceisiadau'n fwy na nifer y lleoedd sydd ar gael yn yr ysgol. Os na chynigir lle yn yr ysgol a ffefrir, bydd y plentyn yn cael ei gynnwys yn awtomatig ar restr aros yr ysgol honno oni bai bod y rhiant/gofalwr wedi dweud yn benodol wrth yr awdurdod lleol nad yw hyn yn ofynnol.

Ar gyfer y cylchoedd derbyn, bydd plant yn parhau i fod ar y rhestr aros, ar gyfer unrhyw ysgol y gwrthodwyd lle iddynt ynddi, tan 30 Medi 2025. Bydd plant yn cael eu tynnu oddi ar y rhestr/au aros yn awtomatig ar ôl y dyddiad hwn.

Os bydd lleoedd ychwanegol yn codi mewn ysgol, byddant yn cael eu dyrannu i blant ar y rhestr aros ar sail y meini prawf gordanysgrifio cyhoeddedig (gweler adran 13 ac 14) **nid** ar sail yr amser y mae disgybl wedi bod ar y rhestr aros.

## 16. Derbyniadau/trosglwyddiadau yn ystod y flwyddyn

### 16.1 Amgylchiadau pan fo'n ofynnol i wneud cais derbyn/trosglwyddo yn ystod y flwyddyn

Mae'n **rhaid** llenwi ceisiadau derbyn/trosglwyddo yn ystod y flwyddyn o dan unrhyw un o'r amgylchiadau canlynol:

1. Os ydy plentyn yn symud i Fwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn ystod blwyddyn ysgol a bod y rhieni/gofalwyr yn dymuno i'r plentyn fynychu ysgol yr awdurdod lleol yw'r awdurdod derbyn ar ei chyfer.

2. Os ydy rhieni/gofalwyr yn dymuno i'w plentyn/plant symud i ysgol arall ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn ystod blwyddyn ysgol a bod y rhieni/gofalwyr yn dymuno i'w plentyn symud i ysgol yr awdurdod lleol yw'r awdurdod derbyn ar ei chyfer.

3. Os nad yw ffurflen gais am gylch derbyn wedi'i llenwi a'i chyflwyno i'r awdurdod lleol erbyn 31 Awst 2025 (hynny yw, bod cais yn cael ei gyflwyno ar ddyddiad dechrau swyddogol y flwyddyn ysgol 2025-2026 neu ar ôl y dyddiad hwnnw).

### 16.2 Trosglwyddiadau ysgol

Cynghorir rhieni/gofalwyr sy'n dymuno gwneud cais am le mewn ysgol wahanol am resymau heblaw am symud tŷ i ystyried yn ofalus yr wybodaeth un y Prosbectws Dechrau yn yr Ysgol 2025-2026 a'rwybodaeth sydd ar gael ar wefan yr awdurdod lleol.

Dylai rhieni/gofalwyr siarad â phennaeth ysgol bresennol y disgybl ynglŷn â'r rhesymau dros ystyried newid ysgol. Mae llawer iawn o dystiolaeth yn dangos bod newid ysgol yn gallu amharu a chael effaith negyddol ar gyrhaeddiad disgybl. Mae llawer o resymau am hyn. Mae'n hynod bwysig ystyried yn ofalus effeithiau symud disgyblion ym Mlwyddyn 10 a

Blwyddyn 11, a fyddai wedi dechrau astudio ar gyfer y pynciau y maent wedi'u dewis ar gyfer TGAU eisoes, ac efallai na fydd y pynciau hynny ar gael mewn ysgol wahanol.

### 16.3 Ceisiadau ymlaen llaw

Nid yw'n deg nac yn gyfiawn i'r awdurdod lleol gadw lleoedd ar gyfer plant am gyfnodau diangen. Felly, bydd yr awdurdod lleoldim ond yn brosesu ceisiadau derbyn/trosglwyddo i ysgol yn ystod y flwyddyn 'ymlaen llaw' (hynny yw, ar gyfer dyddiad derbyn yn y dyfodol), pan fo'r dyddiad derbyn yn y dyfodol y gofynnir amdano o fewn dau fis calendr i'r dyddiad y daw'r cais i law'r awdurdod lleol a bod yr awdurdod lleol yn fodlon â'r rhesymau dros wneud y cais ymlaen llawn.

### 16.4 Nifer y lleoedd sydd ar gael

Mae Adran 4 yn darparu gwybodaeth am alluoedd ysgolion a rhifau derbyn cyhoeddedig, y mae'r awdurdod lleol yn eu defnyddio i benderfynu a oes lleoedd ar gael.

Oherwydd y gall nifer y disgyblion ar gofrestr unrhyw ysgol newid yn aml, ni fydd yr awdurdod lleol yn darparu gwybodaeth am nifer y lleoedd sydd ar gael mewn unrhyw grŵp blwyddyn mewn unrhyw ysgol cyn i gais derbyn/trosglwyddo i ysgol yn ystod y flwyddyn ddod i law.

### 16.5 Ystyried ceisiadau

Ystyrir ceisiadau derbyn/trosglwyddo i ysgol yn ystod y flwyddyn gan yr awdurdod lleol yn nhrefn y dyddiad a'r amser y daw'r cais i law. Fodd bynnag, mae'r awdurdod lleol yn cadw'r hawl i brosesu unrhyw gais unigol mewn trefn wahanol lle mae'n ystyried bod hyn yn angenrheidiol ac wedi'i gyfiawnhau gan yr amgylchiadau penodol.

Ar gyfer trosglwyddiadau/derbyniadau yn ystod y flwyddyn, nid yw'r ffaith bod y plentyn yn byw yn nalgylch yr ysgol (ysgolion cyfrwng Saesneg) neu'r agosrwydd at yr ysgol agosaf (ysgolion cyfrwng Cymraeg) yn berthnasol i benderfyniad yr awdurdod lleol ynghylch cynnig lle yn yr ysgol y gwnaed cais amdani. (Fodd bynnag, mae'n berthnasol i'r penderfyniad ar gymhwysedd ar gyfer darparu cludiant cartref i ysgol.)

Os nad oes lle ar gael yn y grŵp blwyddyn perthnasol yn yr ysgol y gwnaed y cais amdani, bydd yr awdurdod lleol yn gwrthod derbyn plentyn i'r ysgol honno ac eithrio dan amgylchiadau y mae'r awdurdod lleol o'r farn y dylid gwneud eithriad ar eu cyfer.

### 16.6 Cyfathrebu'r canlyniad

Bydd ymgeiswyr yn cael gwybod yn ysgrifenedig am ganlyniad eu cais derbyn/trosglwyddo i ysgol yn ystod y flwyddyn o fewn 15 diwrnod ysgol neu 28 diwrnod calendr i'r dyddiad y daeth y cais i law, pa un bynnag yw'r cynharaf.

Ni ddylai rhieni/gofalwyr ddisgwyl y bydd y canlyniadau yn cael eu cyfleu iddynt ar lafar.

Pe gwrthodir y cais, bydd yr hysbysiad yn nodi’r rhesymau dros y penderfyniad a bydd yn rhoi gwybod i rieni/ofalwyr am y broses apelio. Gan fod addysg feithrin yn anstatudol, **nid oes gan rieni/ofalwyr unrhyw hawl i apelio yn erbyn ceisiadau aflwyddiannus ar gyfer ceisiadau i ddosbarthiadau meithrin.**

### 16.7 Cynnig lle mewn ysgol arall

Os gwrthodir lle yn yr ysgol a ffefrir, bydd yr awdurdod lleol yn cynnig lle yn yr ysgol amgen agosaf sydd â lle ar gael yn y flwyddyn berthnasol neu'n egluro pam na ellir gwneud cynnig o'r fath (er enghraifft, os mai'r ysgol amgen agosaf yw ysgol gyfredol y plentyn). Bydd y cynnig o le yn yr ysgol amgen agosaf ar agor am 21 diwrnod calendr o ddyddiad llythyr yr awdurdod lleol a bydd yn dod i ben yn awtomatig os na dderbynnir ef o fewn yr amser hwnnw.

Os na dderbynnir cynnig lle yn yr ysgol amgen agosaf, neu ei wrthod yn benodol, rhaid i'r rhiant / gofalwr gyflwyno cais newydd os yw'n ceisio lle mewn unrhyw ysgol arall a ffefrir.

### 16.8 Rhestrau aros

Mae’r awdurdod lleol yn cadw rhestrau aros ar gyfer ysgolion lle mae nifer y ceisiadau’n fwy na nifer y lleoedd sydd ar gael yn yr ysgol. Os na chynigir lle yn yr ysgol a ffefrir, bydd y plentyn yn cael ei gynnwys yn awtomatig ar restr aros yr ysgol honno oni bai bod y rhiant/gofalwr wedi dweud yn benodol wrth yr awdurdod lleol nad yw hyn yn ofynnol.

Ar gyfer ceisiadau derbyn/trosglwyddo yn ystod y flwyddyn, bydd plant yn parhau i fod ar y rhestr aros ar gyfer unrhyw ysgol y gwrthodwyd lle iddynt ynddi am gyfnod o dri mis o’r dyddiad y llythyr gwrthod, neu hyd at 31 Awst 2026, pa un bynnag sydd gyntaf. Bydd plant yn cael eu tynnu oddi ar y rhestr/au aros yn awtomatig ar ôl i’r cyfnodau neu'r dyddiad hwn.

Ni fydd cyflwyno cais newydd i dderbyn/drosglwyddo i’r un ysgol ystod y flwyddyn yn adnewyddu lle plentyn ar restr aros. Os cyflwynir a gwrthodir cais newydd i dderbyn/drosglwyddo yn ystod y flwyddyn, bydd y plentyn yn cael ei gofnodi fel enw newydd ar y rhestr aros o’r dyddiad y llythyr gwrthod.

Nid yw cofrestru apêl derbyn yn ymestyn amser plentyn ar y rhestr aros, ni waeth beth yw dyddiad gwrandawiad yr apêl derbyn.

Os bydd lleoedd ychwanegol yn codi mewn ysgol, byddant yn cael eu dyrannu i blant ar y rhestr aros ar sail y meini prawf gordanysgrifio cyhoeddedig (gweler adran 13 ac 14) **nid** ar sail yr amser y mae disgybl wedi bod ar y rhestr aros. Ni ellir dyrannu lle i blentyn nad yw ar y rhestr aros.

# 17. Apelau yn ymwneud â derbyniadau

## 17.1 Cyffredinol

Cynhelir apelau sy'n ymwneud â derbyniadau ysgol yn unol â Chod Apelau Derbyn i Ysgolion 2013.

Cynghorir unrhyw un sy'n ystyried apelio i ddarllen y Polisi Derbyniadau Ysgol 2025-2026 hwn, Cod Derbyniadau Ysgol 2013 a Chod Apelau Derbyn i Ysgolion 2013 yn eu cyfanrwydd.

Yn y mwyafrif helaeth o achosion, cynigir lleoedd i blant yn unol â'r dewis o ysgol benodol a fynegwyd. Fodd bynnag, os na all plentyn gael ei dderbyn i'r ysgol a ffefrir, gall rhieni/gofalwyr neu ddysgwyr Ôl-16 ddewis apelio i banel apêl annibynnol.

Gall rhieni/gofalwyr neu ddysgwyr Ôl-16 dderbyn lle a gynigir mewn ysgol arall wrth barhau i geisio am le yn yr ysgol a ffefrir. Bydd y panel apêl annibynnol yn ystyried y rhesymau a gyflwynir gan yr apeliwr/apelwyr a phenderfynu a yw manteision yr achos yn gorbwyso'r achos a gyflwynir gan yr awdurdod lleol.

Gan fod addysg feithrin yn anstatudol, **nid oes gan rieni/ofalwyr hawl i apelio** ar gyfer penderfyniadau ynglŷn â derbyniadau i'r dosbarth meithrin.

## 17.2 Cofrestru apêl

### Pobl a gaiff gofrestru apêl

Yn achos cofrestru apêl ar gyfer plant o oedran addysg statudol, mae'n rhaid i'r apêl gael ei chofrestru gan y rhiant/gofalwr, fel y nodir yn adran 13.

Bydd yr awdurdod lleol dim ond yn derbyn apêl sydd wedi'i chofrestru gan unigolyn nad yw'n rhiant/gofalwr os oes caniatâd ysgrifenedig priodol gan y rhiant/gofalwr wedi'i atodi.

Bydd angen i'r unigolyn sy'n cofrestru'r apêl ddatgan ei berthynas â'r plentyn a darparu'r wybodaeth y mae'r awdurdod lleol yn gofyn amdani, gan gynnwys dogfennau, sy'n profi'r berthynas ar yr adeg pan gofrestrir yr apêl. Ni fydd angen i'r person sy'n cofrestru'r apêl gyflwyno'r dystiolaeth hon os ydyw wedi ei chyflwyno eisoes i gefnogi'r cais derbyn.

Gellir cyflwyno apelau sy'n ymwneud â throsglwyddiadau/derbyniadau Ôl-16 gan riant/ofalwr neu'r dysgwr.

### Amserlen ar gyfer cofrestru apêl

Yn achos apelau sy'n ymwneud â gwrthod lleoedd mewn cylch derbyn, mae **rhaid** i'r apêl gael ei chofrestru gyda'r awdurdod lleol erbyn y dyddiad cau a nodwyd yn adran 13.

Yn achos apelau sy'n ymwneud â gwrthod lle yn dilyn cyflwyniad cais derbyn/trosglwyddo yn ystod y flwyddyn, mae'n **rhaid** i'r apêl gael ei chofrestru gyda'r awdurdod lleol o fewn 21 diwrnod calendr gwaith i ddyddiad yr hysbysiad ysgrifenedig am y gwrthodiad.

### Sut i gofrestru apêl

Mae'n rhaid cofrestru apêl yn ysgrifenedig.

Bydd y llythyr hysbysu gan yr awdurdod lleol ynghylch canlyniad cais derbyn yn rhoi gwybodaeth am y broses cofrestru apêl.

## 17.3 Trefniadau ar gyfer gwrandawiad yr apêl

Bydd yr awdurdod lleol yn cyfeirio'r apêl at banel apêl annibynnol. Bydd clerc y panel yn trefnu amser a lleoliad ar gyfer y gwrandawiad.

Bydd apelwyr yn cael cyfle i fynd i wrandawiad y panel a nodi eu sylwadau (ar lafar a/neu yn ysgrifenedig).

Cynghorir apelwyr o'r canlynol:

1. Gallant ddewis peidio â mynd i'r cyfarfod apêl ac, yn hytrach, caniatáu i'r apêl gael ei hystyried ar sail datganiad ysgrifenedig.

2. Bydd yr apêl yn cael ei phenderfynu ar sail yr wybodaeth sydd ar gael os yw rhieni/gofalwyr wedi nodi bwriad i fod yn bresennol yn yr apêl ond nad ydynt yn gwneud hynny heb fod esboniad rhesymol.

3. Os na all apelwyr fod yn bresennol ar y dyddiad a drefnir ac nad yw'n rhesymol yn ymarferol i gynnig gohirio'r gwrandawiad, bydd yr apêl yn cael ei phenderfynu ar sail yr wybodaeth sydd ar gael.

4. Bydd apelwyr yn cael gwybod yn ysgrifenedig am gyfarfod y panel apêl o leiaf 14 diwrnod (10 diwrnod gwaith) ymlaen llaw, oni bai eu bod yn cytuno ar gyfnod byrrach. Dylai'r apeliwr gadarnhau hyn yn ysgrifenedig gyda chlerc y panel.

Caiff ffrind, cynghorydd neu gyfieithydd ar y pryd ddod gyda'r apeliwr. Yn unol â Chod Apelau Derbyn i Ysgolion 2013, ni chaniateir i aelodau'r Cyngor, Aelodau'r Senedd, gwleidyddion lleol na chynghorwyr swyddogion awdurdodau lleol fynychu. Gofynnir i apelwyr roi gwybod i glerc y panel apêl annibynnol am unrhyw gynrychiolaeth o leiaf saith diwrnod cyn y gwrandawiad.

## 17.4 Ail Apêl

Nid oes gan rieni/ofalwyr a dysgwyr Ôl-16 yr hawl i ail apêl yn ymwneud â'r un ysgol a'r un ysgol a'r un flwyddyn ysgol, ac eithrio o dan yr amgylchiadau canlynol:

- cafwyd diffygion yn y broses apêl gyntaf ac mae'n bosibl iawn y bydd y diffygion hyn wedi effeithio ar y canlyniad (gall hyn fod ar sail argymhelliad yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus); neu

- derbyniwyd cais newydd oherwydd bu newid sylweddol a phwysig yn amgylchiadau'r rhiant/gofalwr neu'r plentyn a bod y cais hwnnw wedi'i wrthod hefyd. Enghreifftiau cyffredin o amgylchiadau pan fydd cais newydd yn cael ei ystyried yw pan fydd y teulu wedi symud i gyfeiriad newydd neu pan fo rhesymau meddygol newydd dros ddewis yr ysgol.

Caiff rhieni/gofalwyr a dysgwyr Ôl-16  sy'n apelio'n aflwyddiannus ail-ymgeisio am le yn yr un ysgol ar gyfer blwyddyn ysgol ddiweddarach (ond yn amodol ar yr amserlenni a nodir yn adran 13). Bydd gan rieni/ofalwyr a dysgwyr Ôl-16  hawl i apelio pe gwrthodir y cais hwnnw.

Bydd unrhyw wybodaeth a ddarperir gan apeliwr wrth gofrestru apêl yn ymwneud â chais derbyn i ysgol yn cael ei chadw yn electronig a'i defnyddio gan yr awdurdod lleol at ddiben y cais derbyn.

## 18. Fforwm Derbyniadau Ysgol Pen-y-bont ar Ogwr

Mae dyletswydd statudol ar yr awdurdod lleol i sefydlu fforwm derbyniadau.

Mae cyfansoddiad Fforwm Derbyniadau Ysgol Pen-y-bont ar Ogwr yn unol ag Atodiad D o'r cod statudol, Cod Derbyniadau Ysgol 2013.

Swyddogaeth y fforwm yw helpu i sicrhau bod y system derbyniadau ysgol ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn deg, yn syml ac yn hawdd i rieni/ofalwyr ei deall. Mae'r fforwm yn gyfrifol am fonitro cydymffurfiad yr awdurdod lleol â'r cod statudol, Cod Derbyniadau Ysgol 2013 a gall y fforwm gynghori'r awdurdod lleol ar ffyrdd y gellid gwella trefniadau derbyn.

Cyhoeddir cylch gwaith,  cofnodion cyfarfodydd ac adroddiadau blynyddol Fforwm Derbyniadau Ysgol Pen-y-bont ar Ogwr ar wefan yr awdurdod lleol.

## 19. Gwybodaeth ychwanegol

Yn ychwanegol at y ffynonellau gwybodaeth sydd wedi eu nodi eisoes, mae Prosbectws Dechrau yn yr Ysgol yr awdurdod lleol ar gyfer 2025-2026 yn darparu rhagor o wybodaeth am faterion sy'n ymwneud â derbyniadau ysgol neu ddechrau yn yr ysgol.

## 20. Ymholiadau

Ceir cyfeirio ymholiadau ynghylch y polisi hwn a'r prosesau derbyn neu apelio at Gwasanaethau Disgyblion fel a ganlyn:

E-bost: pupilservices@bridgend.gov.uk

Rhif ffôn: 01656 642622

Cyfeiriad: Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Y Gyfarwyddiaeth Addysg a Chymorth i Deuluoedd
Gwasanaethau Dysgyblion
Y Swyddfeydd Dinesig
Stryd yr Angel
Pen-y-bont ar Ogwr
CF31 4WB

Cyhoeddir y polisi hwn ar wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

## Atodiad A - Aiferoedd derbyn

Niferoedd derbyn yr ysgolion hynny y mae'r awdurdod lleol yn awdurdod derbyn ar eu cyfer.

Nid yw'r nifer derbyn ar gyfer pob ysgol yn berthnasol i ddosbarthiadau meithrin.

Mae niferoedd derbyn yn parhau i gael eu hadolygu a gallant newid cyn dechrau blwyddyn ysgol 2025-2026.

| Ysgol | Nifer Derbyn |
|---|---|
| **Ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg** | |
| Ysgol Gynradd Abercerdin | 30 |
| Ysgol Gynradd Afon y Felin | 19 |
| Ysgol Gynradd Betws | 30 |
| Ysgol Gynradd Blaengarw | 24 |
| Ysgol Gynradd Bracla | 45 |
| Ysgol Gynradd Bryncethin | 35 |
| Ysgol Gynradd Brynmenyn | 60 |
| Ysgol Fabanod Bryntirion | 40 |
| Ysgol Gynradd Caerau | 60 |
| Ysgol Gynradd Cefn Cribwr | 20 |
| Ysgol Fabanod Cefn Glas | 66 |
| Ysgol Gynradd Coety | 60 |
| Ysgol Gynradd Corneli | 46 |
| Ysgol Gynradd Llangrallo | 19 |
| Ysgol Gynradd Croesty | 30 |
| Ysgol Gynradd Cwmfelin | 30 |
| Ysgol Gynradd Ffaldau | 30 |
| Ysgol Gynradd Garth | 30 |
| Ysgol Gynradd Litchard | 60 |
| Ysgol Iau Llangewydd | 90 |
| Ysgol Gynradd Llangynwyd | 14 |
| Ysgol Gynradd Maes yr Haul | 75 |
| Ysgol Gynradd Mynydd Cynffig | 60 |
| Ysgol Gynradd Nantyffyllon | 40 |
| Ysgol Gynradd Nant-y-moel | 30 |

| | |
|---|---|
| Ysgol Gynradd Y Drenewydd | 34 |
| Ysgol Gynradd Nottais | 60 |
| Ysgol Gynradd Bro Ogmore | 53 |
| Ysgol Gynradd Hengastell | 60 |
| Ysgol Gynradd Pencoed | 72 |
| Ysgol Gynradd Pen-y-bont | 45 |
| Ysgol Gynradd y Pîl | 30 |
| Ysgol Gynradd Plasnewydd | 45 |
| Ysgol Gynradd Porthcawl | 25 |
| Ysgol Gynradd Tondu | 42 |
| Ysgol Gynradd Trelales | 30 |
| Ysgol Gynradd Tremains | 65 |
| Ysgol Gynradd Tynyrheol | 10 |
| Ysgol Gynradd Parc y Gorllewin | 55 |
| | |
| **Ysgolion cybradd wirfoddol a reolir cyfrwng Saesneg** | |
| Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Pen-y-Fai | 30 |
| | |
| **Ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg** | |
| Ysgol Gymraeg Bro Ogwr | 54 |
| Ysgol Gynradd Gymraeg Calon y Cymoedd | 30 |
| Ysgol Cynwyd Sant | 45 |
| Ysgol y Ferch o'r Sgêr | 33 |
| | |
| **Ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg** | |
| Ysgol Brynteg | 333 |
| Ysgol Gyfun Bryntirion | 210 |
| Coleg Cymunedol Y Dderwen | 276 |
| Ysgol Gyfun Cynffig | 180 |
| Ysgol Maesteg | 228 |
| Ysgol Gyfun Pencoed | 214 |
| Ysgol Gyfun Porthcawl | 246 |
| | |
| **Ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg** | |
| Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd | 165 |